# Cynllun Ariannu Cenedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Adroddiad gwerthuso

Gorffennaf 2023



| **Fersiwn:** | **Cyhoeddwyd:** | **Sylw:** |
|---|---|---|
| **0** | 24 03 23 | Strwythur adroddiad drafft (Gwasanaeth Ynni LlC) |
| **1** | 05 04 23 | Cynnwys Atodiadau C a D ac Atodiad A wedi'i ddiweddaru (Gwasanaeth Ynni LlC ) |
| **2** | 19 06 23 | Cyflwyniad drafft llawn (Gwasanaeth Ynni LlC ) |
| **3** | 20 06 23 | Fersiwn ddiwygiedig â newidiadau wedi'u holrhain (LlC) |
| **4** | 26 06 23 | Cyflwyniad drafft llawn terfynol (Gwasanaeth Ynni LlC ) |
| **5** | 28 06 23 | Cymeradwywyd (LlC) |

# Cynnwys

Cynnwys ....... 2
Ynglŷn â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ....... 3
1. Crynodeb gweithredol ....... 4
2. Cyflwyniad ....... 6
3. Dull ....... 8
4. Canlyniadau wedi'u crynhoi o'r dull ....... 12
5. Casgliadau ....... 16
Atodiad A: Holiadur y pecyn cymorth gwerthuso ....... 21
Atodiad B: Geirfa ....... 35
Atodiad C: Adborth astudiaethau achos a gwerthusiadau prosiect ....... 37
Atodiad D: Enghraifft wedi'i chwblhau ....... 83

## Ynglŷn â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

**Gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (y Gwasanaeth Ynni) helpu i ddatblygu eich prosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, a cherbydau allyriadau isel.**

Mae'r Gwasanaeth Ynni yn cynorthwyo sefydliadau cymunedol a sector cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a cherbydau allyriadau isel a fydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn sicrhau arbedion cost, yn cynhyrchu incwm ac yn sicrhau manteision cymunedol ehangach.

Rydym yn cynnig cymorth technegol, masnachol a chaffael trwy dîm o arbenigwyr a phrofiad helaeth o ddatblygu prosiectau ynni yng Nghymru.

**E-bost:** enquiries@energyservice.wales

**Twitter:** @_energyservice

**Gwefan:** www.llyw.cymru/y-gwasanaeth-ynni-ar-gyfer-grwpiaur-sector-cyhoeddus-grwpiau-cymunedol

# 1. Crynodeb gweithredol

Penodwyd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (y 'Gwasanaeth Ynni') gan Lywodraeth Cymru (LlC) i greu pecyn cymorth gwerthuso a fyddai'n galluogi asesiad cyson o effaith prosiectau a ariannwyd dros 2022/23 yn rhan o flwyddyn gyntaf Cynllun Ariannu Cenedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IaGC). Bwriadwyd i flwyddyn gyntaf y cynllun helpu'r Rhaglen Genedlaethol i ddysgu gwersi o lwyddiannau a heriau'r cynllun a'r prosiectau a ariannwyd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r dull gwerthuso, yr offeryn, canlyniadau wedi'u crynhoi, a chasgliadau. Darperir gwerthusiadau o'r 25 o brosiectau ac astudiaethau achos arweinwyr prosiectau yn yr atodiadau, ynghyd â holiadur y pecyn cymorth gwerthuso, geirfa, ac enghraifft werthuso wedi'i chwblhau.

Amcanion allweddol y prosiect hwn oedd:

- Rhoi dull cyson a chyffredin o werthuso'r prosiectau a ariannwyd i Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol fel y gall Bwrdd y Rhaglen benderfynu a yw'r prosiectau wedi creu'r effaith a fwriadwyd.
- Cwblhau gwerthusiad o'r 25 o brosiectau gan ddefnyddio'r pecyn cymorth gwerthuso.
- Cynorthwyo LlC i fabwysiadu'r pecyn cymorth gwerthuso trwy grynhoi'r dull a'r canlyniadau mewn adroddiad a chyflwyno i Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol i gynorthwyo dosbarthiad y dull gwerthuso, y canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd.

## Pecyn cymorth gwerthuso

Mae'r pecyn cymorth gwerthuso yn cynnwys holiadur sy'n cyfrannu at dabl Coch-Oren-Gwyrdd (COG) ac fe'i cyflwynir yn Adran 3. Mae'r holiadur, y nodir ei fanylion yn Atodiad A, wedi'i strwythuro'n ddwy ran. Mae A.1 yn trafod cysyniad sylfaenol y prosiect yn rhan o'r ymarfer casglu data ac nid yw'n rhan o'r gwerthusiad. Mae A.2 yn asesu pob prosiect ar draws tri chategori: effaith garbon, gwerth am arian, ac effaith sefydliadol.

## Canfyddiadau

Cyflwynir Canlyniadau wedi'u crynhoi'r pecyn cymorth yn Adran 4 ac maent yn dangos yr amrywiaeth o weithgareddau a ariannwyd, gyda'r mwyafrif o brosiectau yn rhoi sylw i gyfathrebu, ymgysylltu, a newid ymddygiad, wedi'u dilyn gan weithgarwch datgarboneiddio neu liniaru, gweithgarwch arloesi, addasu neu gynllunio cydnerthedd, ac 'arall'. Amlygodd y gwerthusiad yr her o gyflawni gostyngiadau carbon sylweddol yn y sector gofal iechyd trwy brosiectau graddfa fach, lleol, â chyfyngiadau amser. Pwysleisiodd llawer o brosiectau, oherwydd eu maint bach neu'r ffaith eu bod wedi'u cyfyngu i un

sefydliad, bod eu heffaith ddatgarboneiddio yn gyfyngedig, ac y byddai angen buddsoddiad ac adnoddau pellach i dyfu. Tynnodd arweinwyr prosiectau sylw hefyd at yr heriau o gasglu data ar ostyngiadau carbon oherwydd capasiti ac arbenigedd carbon cyfyngedig ymhlith staff ar lefel leol. Roedd effaith sefydliadol, yn enwedig ymgysylltiad â phrosiectau, yn faes lle adroddwyd canlyniadau gwyrdd neu oren gan lawer o arweinwyr, sy'n awgrymu llawer o barodrwydd i ysgogi newid a brwdfrydedd mawr gan staff a gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, nododd llawer o arweinwyr prosiectau hefyd y byddai angen cymorth pellach i droi brwdfrydedd yn ostyngiadau carbon mesuradwy.

**Effaith Carbon**

- Roedd prosiectau a sicrhaodd ostyngiadau uchel neu ganolig i effaith carbon yn canolbwyntio ar leihau gwastraff, gan gyfnewid meddyginiaethau carbon uchel, neu ysgogi newid systemau. Roedd y cynlluniau lleihau carbon hyn yn fwy mesuradwy yn syth na mathau eraill h.y., mae'n haws mesur effaith gostyngiad i wastraff meddygol blynyddol na chanlyniadau ymgyrch newid ymddygiad.
- Roedd yr anghenraid o gynyddu'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael yn amlwg, gan fod prosiectau ag effaith isel/dibwys yn aml wedi'u cyfyngu gan y diffyg personél a chyllid a oedd ar gael.
- Ni wnaeth y rhan fwyaf o brosiectau gyfrifo eu heffeithiau carbon, gan gyfeirio at resymau fel diffyg mynediad at wybodaeth, adnoddau cyfyngedig, a'r ffaith na chafodd rhai prosiectau effeithiau mesuradwy e.e., ymgyrchoedd addysgol yn ceisio targedu allyriadau yn anuniongyrchol dros yr hirdymor.

**Gwerth am Arian**

- Rhyddhawyd arian parod trwy newidiadau defnydd sylweddol a lleihau'r defnydd o eitemau, tra bod ymatebion dim rhyddhad yn dynodi prosiectau camau cynnar a oedd yn disgwyl rhyddhad arian parod yn sgil tyfu neu fwy o adnoddau.
- Gwelwyd rhyddhad capasiti mewn prosiectau a wnaeth ryddhau amser staff a gwella arbedion effeithlonrwydd, tra bod ymatebion amherthnasol neu ddim rhyddhad oherwydd na ystyriwyd y metrig hwn yn wreiddiol.
- Gwelwyd osgoi costau mewn prosiectau a oedd yn symleiddio adnoddau neu'n cymryd camau rhagweithiol a oedd yn osgoi costau, tra bod ymatebion dim osgoi oherwydd nad arbedion ariannol oedd nod y prosiect, neu fe'u disgwyliwyd yn y dyfodol yn unig.

**Effaith Sefydliadol**

- Nododd y mwyafrif o brosiectau eu bod yn cyd-fynd yn agos â strategaethau a pholisïau yn gysylltiedig â datgarboneiddio, gan ddangos aliniad sefydliadol a strategol cryf.

- Roedd gan brosiectau â gallu uchel i dyfu a chyn lleied o rwystrau a phosibl y potensial ar gyfer ailadrodd mewn sefydliadau lluosog, a rhwystrau hysbys yn cynnwys mynediad at gyllid, arbenigwyr, ac integreiddiad i seilwaith cynaliadwyedd ehangach.
- Roedd gan bob prosiect botensial uchel neu rywfaint o botensial i gynyddu ymgysylltiad â'r agenda datgarboneiddio ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
- Nododd llawer o brosiectau gyfatebiaeth gadarnhaol rhwng cyflawni nodau amgylcheddol a sicrhau gwell canlyniadau i gleifion, tra bod ymatebion cyflawniad cyfyngedig neu amherthnasol yn dynodi pwyslais ar ganlyniadau amgylchedd heb gysylltiad uniongyrchol â chleifion.

# 2. Cyflwyniad

## Cefndir a chyd-destun Llywodraeth Cymru

Crëwyd Rhaglen Genedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IaGC) i fynd i'r afael â'r heriau a nodi cyfleoedd y mae'r argyfwng hinsawdd yn eu creu i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Sefydlwyd Cynllun Ariannu Cenedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd IaGC ddechrau 2022/23 i ariannu prosiectau sy'n helpu i leihau allyriadau neu gynorthwyo'r sector i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Gwahoddwyd pob sefydliad GIG i wneud cais am gyllid o hyd at £60,000 ym mlwyddyn gyntaf y cynllun.

Prif amcan cynllun 2022/23 oedd darparu cymorth ariannol cychwynnol i brosiectau a fydd yn cyfrannu at uchelgais sector cyhoeddus Cymru o fod yn sero net erbyn 2030 a chynyddu cydnerthedd yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn gofyn am amrywiaeth o gamau a chanolbwyntiodd y gronfa ar:

- weithgarwch cyfathrebu, ymgysylltu, neu newid ymddygiad
- gweithgarwch datgarboneiddio neu liniaru
- gweithgarwch addasu neu gynllunio cydnerthedd
- gweithgarwch arloesi

Roedd angen i'r holl brosiectau a ariannwyd ddangos uchelgais a'r gallu i dyfu, nid yn unig o fewn eu sefydliad eu hunain ond hefyd ar draws GIG Cymru a'r sector Gofal Cymdeithasol.

## Gwerthuso’r cynllun ariannu


Gwnaeth Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol IaGC gais i ddull cyson a chyffredin o werthuso prosiectau a ariennir gael ei lunio, gan gyfuno tystiolaeth feintiol ac ansoddol berthnasol i fesur sut mae prosiectau wedi cyflawni yn erbyn meini prawf y cynllun, canlyniadau disgwyliedig a nodau cyffredin y Rhaglen Genedlaethol.

Roedd yn ofynnol i’r dull gwerthuso:

- fod â photensial ar gyfer fersiwn bellach (e.e., os/pan fydd dulliau newydd o nodi effeithiau allyriadau carbon yn dod ar gael)
- bod yn berthnasol i unrhyw rowndiau ariannu yn y dyfodol a gwerthusiadau o’r prosiectau hynny
- cynorthwyo sefydliadau i hunanwerthuso eu prosiectau cysylltiedig â hinsawdd eu hunain yn y dyfodol, trwy ddatblygu dull neu ganllawiau annibynnol
- mabwysiadu’r hyn a ddysgir wrth weithio, lle byddai’r dull gwerthuso yn ystyried sut i gynorthwyo gwelliant parhaus i ariannu prosiectau bach i ganolig eu maint.

# 3. Dull

## Trosolwg




Ffigur 1: Dadansoddiad o'r camau allweddol a gymerwyd i ddarparu'r prosiect.

I **sefydlu'r dull gwerthuso**, fe wnaethom weithio gyda LIC i adolygu'r dull a fabwysiadwyd gan sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Ariannu Cenedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd IaGC. Comisiynwyd y Gwasanaeth Ynni yn benodol i:

- adolygu deunyddiau dethol sy'n berthnasol i'r Cynllun Ariannu, gan gynnwys:
  - deunyddiau perthnasol i Raglen Genedlaethol a Chynllun Ariannu yr Argyfwng Hinsawdd IaGC (e.e. adroddiadau ar gynnydd, tystiolaeth feintiol ac ansoddol o brosiectau, meini prawf cynlluniau)
  - adroddiad 'What Works' y Gwasanaeth Ynni
  - Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru
  - Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
  - Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrdd
  - Canllawiau Adrodd ar Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru
  - Adnoddau o'r Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy

- ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr adran Cynllunio a Chyflawni Cyllid yng Ngweithrediaeth GIG Cymru; Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru; Is-adran Newid Hinsawdd ac Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol Llywodraeth Cymru, a rheolwyr prosiect dethol o brosiectau a ariannwyd.

- dylunio pecyn cymorth gwerthuso i werthuso prosiectau a ariannwyd, gan ymgorffori adborth gan LlC.

I **werthuso'r 25 o brosiectau a ariannwyd**, fe wnaethom:

- adolygu adroddiadau ar gynnydd prosiectau yn erbyn meini prawf y pecyn cymorth gwerthuso

- anfon arolwg i holl randdeiliaid y prosiectau â'r holiadur sy'n cyfrannu at y tabl gwerthuso COG

- dylunio cwestiynau i ddatblygu astudiaethau achos ar gyfer LlC

- rhannu'r canlyniadau gyda LlC ar gyfer adborth.

Fe wnaethom **gynorthwyo LlC i fabwysiadu'r dull gwerthuso hwn** trwy:

- gyflwyno'r canlyniadau i randdeiliaid o bob rhan o'r Rhaglen Genedlaethol, gan gynnwys aelodau Bwrdd y Rhaglen, ym mis Mehefin 2023

- darparu hyfforddiant i LlC ar ddefnyddio'r dull gwerthuso

- llunio'r adroddiad hwn, gan gynnwys canllawiau ar ddefnyddio'r pecyn cymorth gwerthuso ac adborth a allai gael ei ystyried yn rhan o rowndiau ariannu'r dyfodol.

## Y pecyn cymorth gwerthuso

Crëwyd y dull gwerthuso (a ddangosir ar y dudalen nesaf) i werthuso effaith prosiectau a ariannwyd o dan Raglen Genedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyson, i helpu i asesu effeithiolrwydd cyffredinol y cynllun ariannu a datblygiad prosiectau a chynlluniau ariannu'r dyfodol.

Cyflwynodd LIC yr holiadur (0i arweinwyr prosiectau, y gofynnwyd iddynt lenwi'r wybodaeth. Ar gyfer y rownd gychwynnol, cyflwynwyd yr holiadur gan y Gwasanaeth Ynni ar ffurf arolwg trwy Microsoft Forms.

Mae'r cwestiynau yn Adran A.1 yn gweithredu fel **ymarfer casglu data** i ddeall y mathau o brosiectau a ariannwyd.

Nod y cwestiynau yn Adran A.2 yw **mesur llwyddiant** y prosiect ar sail sgôr Coch-Oren-Gwyrdd (COG) trwy naw cwestiwn mewn tri chategori: lleihau carbon, gwerth am arian, ac effaith sefydliadol. Dim ond Adran A.2 sy'n hysbysu'r dull gwerthuso, ac mae'r tabl canlynol wedi'i strwythuro yn ôl y tri chategori a chwestiynau cyfatebol. Gall arweinwyr prosiectau sy'n hunanwerthuso prosiectau ddewis atebion o fformat amlddewis. Mae pob ateb yn cyfateb i sgôr COG.

Mae'r cwestiynau yn Adran B yn hysbysu astudiaeth achos prosiect.

Bwriedir i'r dull gwerthuso hwn fod yn berthnasol i unrhyw rowndiau ariannu yn y dyfodol tra hefyd yn meddu ar y potensial i gael eu hailadrodd. Gobeithir hefyd y gall sefydliadau ddefnyddio'r dull a'r astudiaethau achos sydd wedi deillio ohono i hunanwerthuso a datblygu ymhellach yn eu prosiectau hinsawdd eu hunain.

## Dull gwerthuso

| | Rhif | A.2. Mesur llwyddiant | Gwyrdd | Oren | Coch | Llwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Effaith carbon** | **1** | **Gostyngiad carbon uniongyrchol** | Effaith uchel (0.5-3%) | Effaith ganolig (hyd at 0.5%) | Effaith isel / dibwys | Amh. |
| | **2** | **Effaith carbon bosibl ehangach** | Effaith uchel (0.5-3%) | Effaith ganolig (hyd at 0.5%) | Effaith isel / dibwys | Amh. |
| **Gwerth am arian** | **3** | **Rhyddhad arian parod** | Rhyddhad uchel | Rhyddhad cyfyngedig | Dim rhyddhad | Amh. |
| | **4** | **Rhyddhad capasiti** | Rhyddhad uchel | Rhyddhad cyfyngedig | Dim rhyddhad | Amh. |
| | **5** | **Osgoi costau** | Osgoi uchel | Osgoi cyfyngedig | Dim osgoi | Amh. |
| **Effaith sefydliadol** | **6** | **Aliniad strategol** | Aliniad agos | Aliniad rhannol | Aliniad cyfyngedig | Amh. |
| | **7** | **Gallu i dyfu** | Gallu mawr i dyfu | Gallu rhannol i dyfu | Gallu cyfyngedig i dyfu | Amh. |
| | **8** | **Potensial ymgysylltu** | Potensial uchel | Rhywfaint o botensial | Potensial cyfyngedig | Amh. |
| | **9** | **Gofal iechyd cynaliadwy** | Yn cyflawni'n gryf | Yn cyflawni'n rhannol | Cyflawniad cyfyngedig | Amh. |

# 4. Canlyniadau wedi'u crynhoi o'r dull

Rhestrir y prosiectau yn nhrefn y wyddor (teitl Saesneg) fesul sefydliad.

| | | | Categorïau prosiect | | | | | Canlyniadau gwerthuso | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Teitl y prosiect** | **Sefydliad** | Cyfathrebu | Datgarboneiddio | Addasu | Gweithgarwch arloesi | Arall | Gostyngiad carbon uniongyrchol | Gostyngiad carbon anuniongyrchol | Rhyddhad arian parod | Rhyddhad capasiti | Osgoi costau | Aliniad strategol | Gallu i dyfu | Potensial ymgysylltu | Gofal iechyd cynaliadwy |
| 1 | **Astudiaeth Bioamrywiaeth** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | | | **X** | **X** | | Amh | C | Amh | Amh | Amh | G | O | G | C |
| 2 | **Cymrawd Clinigol mewn Cynaliadwyedd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | **X** | **X** | | | | C | C | G | G | G | G | G | G | G |
| 3 | **Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd** | Comisiwn Bevan | **X** | | | **X** | | Amh | C | Amh | Amh | Amh | O | Amh | O | O |
| 4 | **Prosiect Ansawdd Aer** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | **X** | **X** | | | | Amh | Amh | C | C | C | O | O | G | G |
| 5 | **Arweinyddiaeth Glinigol ar gyfer Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | **X** | **X** | **X** | **X** | | Amh | Amh | Amh | G | Amh | G | G | G | G |

| | | | Categorïau prosiect | | | | | Canlyniadau gwerthuso | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Teitl y prosiect** | **Sefydliad** | Cyfathrebu | Datgarboneiddio | Addasu | Gweithgarwch arloesi | Arall | Gostyngiad carbon uniongyrchol | Gostyngiad carbon anuniongyrchol | Rhyddhad arian parod | Rhyddhad capasiti | Osgoi costau | Aliniad strategol | Gallu i dyfu | Potensial ymgysylltu | Gofal iechyd cynaliadwy |
| 6 | **Lleihau Ocsid Nitrus ac Entonox** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | | **X** | | | | Amh | O | O | Amh | O | G | G | G | G |
| 7 | **Sbecwla Amldro** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | | **X** | | **X** | | C | C | O | C | Amh | C | O | O | O |
| 8 | **Rhwydwaith Iechyd Gwyrdd Cymru** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro/Iechyd Gwyrdd Cymru | **X** | **X** | **X** | **X** | | Amh | G | Amh | O | Amh | G | O | G | G |
| 9 | **Datblygu Arloesedd Cynaliadwy** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | **X** | **X** | **X** | **X** | | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | O | O | G | G |
| 10 | **Datblygu Adnoddau Addysgol** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | **X** | | | | | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | G | G | G | Amh |
| 11 | **Cyfadran Gofal Iechyd Cynaliadwy** | Addysg a Gwella Iechyd Cymru | **X** | | | | | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | O | O | G | Amh |
| 12 | **Cymrodoriaeth Gynaliadwyedd mewn Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **X** | | | **X** | | Amh | O | Amh | Amh | Amh | G | O | G | O |

| | | | Categorïau prosiect | | | | | Canlyniadau gwerthuso | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Teitl y prosiect** | **Sefydliad** | Cyfathrebu | Datgarboneiddio | Addasu | Gweithgarwch arloesi | Arall | Gostyngiad carbon uniongyrchol | Gostyngiad carbon anuniongyrchol | Rhyddhad arian parod | Rhyddhad capasiti | Osgoi costau | Aliniad strategol | Gallu i dyfu | Potensial ymgysylltu | Gofal iechyd cynaliadwy |
| 13 | **Gwella a Gwarchod Bioamrywiaeth** | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | | | | | **X** | C | O | C | Amh | G | G | G | G | O |
| 14 | **Rhaglen Llythrennedd Carbon** | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **X** | **X** | **X** | **X** | | Amh | Amh | C | C | O | O | O | G | O |
| 15 | **Ymgyrch Fferylliaeth Lleihau Carbon** | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **X** | | | **X** | | G | G | C | C | C | G | G | G | G |
| 16 | **Datblygu Pecyn o Adnoddau Hyfforddiant ac Adeiladu Capasiti** | Iechyd Cyhoeddus Cymru | **X** | | | | | Amh | Amh | Amh | O | Amh | G | G | G | Amh |
| 17 | **Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru** | Iechyd Cyhoeddus Cymru | **X** | **X** | | **X** | | Amh | Amh | Amh | Amh | O | G | O | G | O |
| 18 | **Lleihau Gwastraff/Maes Gwasanaeth Microbioleg** | Iechyd Cyhoeddus Cymru | **X** | **X** | | | | O | O | C | C | C | O | G | G | C |
| 19 | **Galluogi Teithio Cynaliadwy** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | **X** | **X** | | | | Amh | Amh | C | C | C | G | G | G | G |

| | | | Categorïau prosiect | | | | | Canlyniadau gwerthuso | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Teitl y prosiect** | **Sefydliad** | Cyfathrebu | Datgarboneiddio | Addasu | Gweithgarwch arloesi | Arall | Gostyngiad carbon uniongyrchol | Gostyngiad carbon anuniongyrchol | Rhyddhad arian parod | Rhyddhad capasiti | Osgoi costau | Aliniad strategol | Gallu i dyfu | Potensial ymgysylltu | Gofal iechyd cynaliadwy |
| 20 | **Labordai Gwyrdd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | **X** | | | | | Amh | Amh | C | C | Amh | O | O | O | O |
| 21 | **Cystadleuaeth Tîm Gwyrdd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe/Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **X** | **X** | | **X** | | O | O | G | Amh | O | G | O | G | G |
| 22 | **Ailgylchu Anadlyddion** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | **X** | **X** | | | | Amh | Amh | C | C | C | G | O | G | O |
| 23 | **Datblygu Rhwydwaith Cerbydau Trydan** | Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | | **X** | | | | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | G | Amh | G | Amh |

Roedd y prosiect 'Turning Red Tape Green: Sustainable Transformation Fellowships', wedi'i redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r prosiect 'Deunyddiau Cyfathrebu Caffael Cynaliadwy', wedi'i redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe hefyd yn rhan o'r cynllun ariannu hwn ond nid oeddent ar gael i gwblhau'r holiadur gwerthuso.

# 5. Casgliadau

Profwyd y pecyn cymorth gwerthuso ar ôl Gynllun Ariannu Cenedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd IaGC ddod i ben ar gyfer 2022/23. Defnyddiwyd y pecyn cymorth, sy'n cynnwys yr holiadur a'r tabl COG a amlinellir yn Adran 3, gan arweinwyr yr holl brosiectau o sefydliadau IaGC a dderbyniodd gyllid. Rhannodd y Gwasanaeth Ynni ganfyddiadau lefel uchel o'r broses arolygu a chanlyniadau gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r Rhaglen Genedlaethol ym mis Mehefin 2023, wedi'i drefnu gan LIC. Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau lefel uchel a rhai gwelliannau posibl ar gyfer y dyfodol.

## Canfyddiadau lefel uchel

**Casglu data**

- **Categorïau prosiectau**
  - O'r Canlyniadau wedi'u crynhoi o'r dull yn Adran 4, nodwyd bod 19 o brosiectau yn targedu neu'n cynnwys gwaith yn ymwneud â chyfathrebu, ymgysylltu neu newid ymddygiad, sef y categori a ddewiswyd amlaf yn yr adran casglu data. Dilynwyd hyn gan 14 o brosiectau a oedd yn cynnwys camau mewn gweithgarwch lliniaru, 11 o brosiectau a oedd yn ymgymryd â gweithgarwch arloesi, 5 o brosiectau ar addasu neu gynllunio cydnerthedd, a 2 a restrwyd fel 'arall'.

**Effaith carbon**

- **Effaith carbon uniongyrchol**
  - Roedd prosiectau a lwyddodd i sicrhau gostyngiad uchel neu ganolig i effaith carbon yn ymwneud â lleihau gwastraff, cyfnewid meddyginiaethau carbon uchel, neu gyflawni newid systemig.
  - Ar gyfer prosiectau a sgoriodd 'effaith isel/dibwys', roedd eu heffaith gyfyngedig oherwydd yr adnoddau cyfyngedig a oedd ar gael i brosiectau, gan gynnwys arian parod, capasiti, ac amser. Mae hyn yn dangos yr anhawster a wynebir gan sefydliadau lleol bach i leihau ôl troed sylfaenol allyriadau ar raddfa GIG Cymru (~1,000,000 tCO2e y flwyddyn) neu ofal cymdeithasol yng Nghymru (~460,000 tCO2e y flwyddyn). Bydd prosiectau graddfa fach ag amserlenni cyfyngedig yn cael effaith gyfyngedig ar leihau carbon oni bai eu bod yn cael eu tyfu neu'n gweithredu fel catalyddion ar gyfer newid ar lefel genedlaethol.
- **Effaith carbon posibl ehangach**
  - Mae canlyniadau tebyg i'w gweld yn yr amcangyfrifon o effaith carbon posibl ehangach, lle nodwyd effaith uchel gan dri phrosiect yn unig, nodwyd effaith canolig gan ddau, nodwyd effaith isel/dibwys gan bump, a nododd 13 o ymatebwyr na chyfrifwyd effaith carbon posibl ehangach.

- Roedd ymatebion y prosiectau yn awgrymu y gellid sicrhau mwy o effaith gostyngiad carbon posibl ehangach trwy ymestyn amserlenni'r prosiectau, cynyddu nifer y sefydliadau a safleoedd ysbyty a oedd yn cymryd rhan, a darparu'r adnoddau sydd eu hangen i brosiectau i barhau i fynd ar drywydd amcanion a gwella dulliau.
- **Cyffredinol –** nid oedd y mwyafrif o brosiectau yn gallu cyfrifo eu heffeithiau carbon a dywedodd 17 o ymatebion bod hyn yn wir ar gyfer y cyfrifiadau carbon uniongyrchol a nodwyd hyn gan 13 o ymatebion ar gyfer yr effaith carbon posibl ehangach. Y prif resymau am hyn oedd:
  - Diffyg mynediad at yr wybodaeth hon (ar draws gwahanol sefydliadau/pobl) – 4 prosiect.
  - Dim amser/arian na chymorth i gyfrifo (diffyg gwybodaeth gan staff clinigol) – 2 brosiect.
  - Nid oedd gan bob prosiect effeithiol y gellid eu mesur (prosiectau yn ymwneud ag addysg, sefydlu grwpiau) – 11 o brosiectau.

**Gwerth am arian**

- **Rhyddhad arian parod**
  - Roedd prosiectau a sicrhaodd ryddhad arian parod uchel yn ymwneud â newidiadau deunydd perthnasol (lleihau gwastraff ocsid nitrus a lleihau'r defnydd o eitemau).
  - Amlygodd ymatebion dim rhyddhad bod prosiectau ar gam cynnar yn bennaf ac yn disgwyl y gellid rhyddhau arian parod o dyfu'r prosiect neu ei gyfrifo â mwy o adnoddau ar gam diweddarach.
  - Roedd ymatebion amherthnasol gan na ystyriwyd rhyddhad arian parod fel amcan i'r prosiect yn wreiddiol.
- **Rhyddhad capasiti**
  - Nodwyd rhyddhad uchel neu gyfyngedig mewn prosiectau a oedd yn cefnogi rhyddhau adnoddau fel amser staff neu gynyddu arbedion effeithlonrwydd trwy fynediad at adnoddau.
  - Roedd ymatebion amherthnasol neu ddim rhyddhad yn aml oherwydd na ystyriwyd y metrig hwn yn rhan o gwmpas neu friff ariannu gwreiddiol y prosiect.
- **Osgoi costau**
  - Cafodd costau eu hosgoi mewn prosiectau a hwylusodd gamau ar fodloni gofynion cyfreithiol neu a symleiddiodd adnoddau addysgol.
  - Dewiswyd dim osgoi pan nad oedd prosiectau yn anelu at arbedion ariannol yn rhan o'r nod, neu y disgwyliwyd y gallai fod potensial i osgoi costau yn y dyfodol ond nid yn ystod y prosiect.
  - Mae ymatebion tebyg i ddim osgo yn awgrymu y gellid gwahaniaethu ymhellach rhwng dim osgoi ac amherthnasol.

**Effaith sefydliadol**

- **Maint yr aliniad â strategaeth/polisi**
    - Nododd y mwyafrif o ymatebion bod eu prosiectau yn alinio'n agos, gan gyfeirio at 'Ddeddf yr Amgylchedd'; 'Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru'; 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'; 'Cynlluniau Gweithredu ar Ddatgarboneiddio' sefydliadol, neu ofynion Adrodd ar Sero Net.
    - Mae'r canlyniad hwn yn galonogol, ond hefyd yn ddisgwyliedig, oherwydd i'r cynigion cychwynnol gael eu hasesu yn erbyn eu haliniad strategol yn ystod y cam dyrannu cyllid cychwynnol.
- **Gallu i dyfu**
    - Mae gan brosiectau sydd â gallu mawr i dyfu â chyn lleied o rwystrau â phosibl y potensial i ledaenu i sefydliadau lluosog, ag effeithiau cadarnhaol sydd eisoes yn bodoli, a bod â mynediad at adnoddau perthnasol pellach neu nad oes eu hangen.
    - Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod rhai rhwystrau hysbys, a oedd yn cynnwys yn bennaf mynediad at gyllid, a rhwystrau yn ymwneud ag integreiddio'r prosiect i seilwaith cynaliadwyedd ehangach gan y byddai angen cyfranogiad gan sefydliadau, dinasoedd, neu ranbarthau eraill. Bydd yn allweddol sicrhau bod sefydliadau lleol yn cael eu galluogi i helpu i integreiddio eu prosiectau â strwythurau GIG ehangach.
- **Potensial ymgysylltu**
    - Nododd yr holl ymatebion bod gan eu prosiectau botensial uchel neu rywfaint o botensial o gynyddu ymgysylltiad â'r agenda ddatgarboneiddio ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.
    - Disgrifiodd ymatebwyr y gymuned ehangach o sefydliadau y gwnaethant ymgysylltu â hi ac i bwy y gallai'r gwaith fod yn berthnasol yn y dyfodol.
- **Cyflawni o ran arfer clinigol cynaliadwy**
    - Nododd y rhan fwyaf o brosiectau gyfatebiaeth gadarnhaol rhwng cyflawni nodau amgylcheddol a sicrhau gwell canlyniadau i gleifion.
    - I brosiectau a nododd gyflawniad cyfyngedig neu nad oeddent yn berthnasol, nid oedd timau prosiect wedi'u cysylltu â chleifion yn eu gwaith neu wedi canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol mwy na gwelliannau clinigol mesuradwy.
    - Nid oedd gan rai prosiectau fynediad at yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i ymateb.

## Gwelliannau yn y dyfodol

Caiff y drafodaeth a rhanddeiliaid y Rhaglen ac adborth o ymatebion i'r arolwg eu crynhoi o dan y pwyntiau ac ystyriaethau allweddol canlynol ar gyfer gwelliannau ar unwaith ar gyfer y dyfodol.

### Gwelliannau i’r broses gasglu

Ar gyfer rowndiau’r dyfodol, gellid casglu gwersi ar strategaethau llwyddiannus a greodd gydweithredu, cyfathrebu, a chydgysylltu cryf ymhlith rhanddeiliaid prosiectau ar gyfer arweinwyr prosiectau’r dyfodol. Nodwyd bod llwyddiant prosiectau weithiau’n dibynnu ar wirfoddolwyr neu unigolion brwdfrydig, sy’n awgrymu bod angen gwelliannau i sicrhau cefnogaeth sefydliadol ar gyfer mynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd. Ceir potensial i ehangu’r broses werthuso mewn ffordd sy’n cynorthwyo arweinwyr prosiectau yn well i nodi gwelliannau ac ymgorffori adborth mewn newidiadau sefydliadol.

### Integreiddio’r broses werthuso yn holl gylch oes y gronfa

Mae adborth o’r gwerthusiad yn dangos bod angen dulliau o’r brig i lawr ac o’r gwaelod i fyny i lunio’r broses werthuso ymhellach. Byddai arweinwyr prosiectau wedi elwa o feini prawf mwy eglur ar y cychwyn o ran yr hyn a fyddai’n cael ei werthuso i sicrhau eu bod yn olrhain y metrigau angenrheidiol. Serch hynny, cydnabuwyd fod y gronfa yn caniatáu hyblygrwydd ac yn cymryd adborth gan sefydliadau ar lawr gwlad, a fyddai yn y sefyllfa orau i nodi pa feini prawf gwerthuso sydd eu hangen i ddangos cynnydd yn eu meysydd prosiect. Byddai integreiddio’r broses werthuso i holl gylch oes y gronfa yn galluogi arweinwyr prosiectau i drafod dulliau gwerthuso, tra hefyd yn rhoi cyfle i gytuno ar ba ddata fydd fwyaf ystyrlon i fesur cynnydd a llwyddiant.

### Ymgorffori rheoli ymaddasol

Cydnabuwyd bod prosiectau angen addasiadau yn aml ac yn cynnwys gwersi a ddysgwyd ar hyd y ffordd. Gallai’r pecyn cymorth gynnwys mecanweithiau ar gyfer nodi gwersi a ddysgwyd a gwneud addasiadau angenrheidiol. Gallai hyn gynnwys sesiynau adborth rheolaidd, rheolfeydd gwerthuso, a chofnodi addasiadau i brosiectau i wella gweithrediad yn y dyfodol.

### Datblygu ailadroddol

Yn dilyn y rownd gychwynnol hon o ddatblygiad, byddai o fudd i’r pecyn cymorth gael ei gynhyrchu mewn fersiwn bellach, gan gymryd adborth gan arweinwyr prosiectau i ystyriaeth. Dylai fersiynau gael eu seilio ar wyddoniaeth hinsawdd gan fod hyn yn helpu’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau i flaenoriaethu meysydd critigol ar gyfer gweithredu trwy nodi sectorau allyriadau uchel a gweithgareddau agored i niwed. Gallai hyn gefnogi dyraniad effeithiol o adnoddau ac ymdrechion wedi’u targedu i fynd i’r afael â heriau hinsawdd. Gwelliant arall fyddai trafod ymhellach y termau a’r esboniadau sy’n esblygu o’r meini prawf gwerthuso. Er enghraifft, yn aml fe wnaeth arweinwyr prosiectau ddehongli ystyr atebion amlddewis yn wahanol lle defnyddiwyd geiriad goddrychol fel ‘cyfyngedig’ neu ‘rhannol’. Mae hyn yn golygu y gallai sgoriau COG fod yn wahanol yn dibynnu ar bwy sy’n cyflawni’r arolwg.

**Cynnwys gwerthuswyr trydydd parti neu niwtral ac integreiddio i brosesau gwerthuso presennol**

Efallai yr hoffai LlC gynyddu trylwyredd yr asesiad trwy gyflwyno ail rownd o werthusiadau gan werthuswr niwtral yn ogystal â'r broses hunanasesu a gyflawnwyd yn y rownd hon. Roedd adborth hefyd yn awgrymu y gellid alinio'r broses werthuso â phrosesau presennol sydd ar waith mewn rhai sefydliadau.

**Digidoleiddio**

Yn unol â dulliau gwerthuso cyffredin a ddefnyddir ar lefel leol, gallai creu platfform gwerthuso ar-lein gynyddu arbedion effeithlonrwydd fel y gellir casglu a dadansoddi data yn ddigidol ar unrhyw gam o'r prosiect. Gallai gwella prosesau digidol alluogi'r gwerthusiad i fod yn fwy hygyrch, e.e., gan werthuswyr trydydd parti.

## Ystyriaethau pellach ar gyfer datblygiad yn y dyfodol

Mae datblygu'r pecyn cymorth gwerthuso wedi cynnig cyfle i asesu prosiectau yn gyson yn erbyn meini prawf cyffredin. Mae'r adborth ar y pecyn cymorth wedi dangos, er bod uchelgais ac ymrwymiad yn uchel, bod mesur effaith mewn ffyrdd mesuradwy ac ystyrlon yn anodd. Dylid ystyried y dull gwerthuso hwn fel fersiwn gyntaf a byddem yn annog adborth pellach ac ystyriaeth o:

- Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o flaenoriaethu prosiectau i dderbyn cyllid? Pa fetrigau ddylid eu defnyddio?
- Sut gall amrywiaeth sefydliadau a phrosiectau GIG a gofal cymdeithasol gael ei hadlewyrchu wrth ddethol a gwerthuso prosiectau?
- Sut gellid tyfu canfyddiadau o'r prosiectau a ariannwyd? Er enghraifft, mae Uned Cynllunio a Chyflawni Ariannol Weithredol y GIG yn y GIG yn gweithio ar 'VAULT'. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Thîm y Rhaglen ac yn gynllun sy'n casglu gwybodaeth am brosiectau y gellid eu lledaenu a'u tyfu ar draws GIG Cymru, â phwyslais ar gynllunio ystyriol o'r amgylchedd a allai gyflawni amcanion gwerth am arian. Mae angen archwilio ymhellach i benderfynu sut gellid defnyddio'r gwerthusiad hwn i nodi mentrau bach i ganolig eu maint a allai ddod yn gysylltiedig â chynlluniau eraill ac adeiladu ar ei gilydd.
- Sut gellid rhannu gwersi a ddysgwyd o rownd ariannu 2022/23 yn weithredol rhwng sefydliadau fel y gall y prosiect gynyddu, gan greu effaith gatalytig o bosibl trwy weithgareddau ymgysylltu?
- Sut ddylai'r pecyn cymorth gwerthuso hwn ryngweithio ac alinio â phrosesau gwerthuso presennol sefydliad?
- A all y gwerthusiad fod yn sbardun ar gyfer gweithredu pellach a chyfleoedd cydweithredu rhwng sefydliadau a allai fod eisiau trafod heriau a llwyddiannau cyffredin?
- Sut gall y broses werthuso barhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n nodi effaith prosiectau ar nodau cynaliadwyedd?
- Sut gall arweinwyr prosiectau'r dyfodol gael y cymorth a'r adnoddau angenrheidiol i weithredu a chynnal newid, er enghraifft, trwy fwy o arweinyddiaeth system?

# Atodiad A: Holiadur y pecyn cymorth gwerthuso

Crëwyd y dull gwerthuso hwn i helpu arweinwyr prosiectau i nodi gwersi a ddysgwyd o’u prosiectau a all helpu i hysbysu datblygiad prosiectau yn y dyfodol. Nod penodol y dull yw archwilio pa fathau o brosiectau sydd fwyaf effeithiol o ran sicrhau gwahanol fathau o ostyngiad carbon.

## A.1 Ynglŷn â’ch prosiect

**Mewnbwn Sylfaenol a Monitro Gweithgarwch**

Nod Adran A.1 ‘Ynglŷn â’ch prosiect’ yw deall cyd-destun sylfaenol y prosiect trwy ymarfer casglu data ac nid yw’n cael unrhyw effaith ar sut y caiff y prosiect ei werthuso. Gallai’r wybodaeth hon helpu i hysbysu dyluniad prosiectau yn y dyfodol trwy sefydlu’r rhesymeg sy’n sail i weithrediad prosiect.

### *A.1.1.* Enw’r prosiect a’r sefydliad

.....................................................................................................................................

### *A.1.2.* Pa feysydd blaenoriaeth mae eich prosiect yn eu targedu?

Cyflwynwyd y meysydd blaenoriaeth canlynol yn y Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru, sydd ar gael ar-lein yma. Ticiwch yr holl feysydd allyriadau y mae eich prosiect yn mynd i’r afael â nhw neu’n bwriadu mynd i’r afael â nhw.

☐ Adeiladau (e.e. trydan, tanwydd gwresogi, dŵr)

☐ Fflyd ac asedau eraill

☐ Teithio busnes, cymudo, gweithio gartref

☐ Defnydd tir

☐ Gwastraff

☐ Cadwyn gyflenwi

☐ Ynni adnewyddadwy

☐ Arall (nodwch) ……………………………………………………….

### *A.1.3.* Pa rai o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio eich prosiect orau?

Bydd cefnogi'r broses o ddatgarboneiddio yn gofyn am amrywiaeth o gamau yn gweithredu ar draws gwahanol feysydd. Nodwch pa rai o'r meysydd canlynol y mae eich prosiect yn weithredol ynddynt. Os yw'r prosiect yn cyflawni camau mewn mwy nag un maes, nodwch hyn.

☐ Cyfathrebu, ymgysylltu, neu newid ymddygiad

☐ Datgarboneiddio neu weithgarwch lliniaru, gan gynnwys cefnogi gweithrediad Cynlluniau Gweithredu

Datgarboneiddio ar lefel sefydliad

☐ Addasu neu weithgarwch cynllunio cydnerthedd, gan gynnwys cefnogi gweithrediad Cynlluniau Gweithredu Addasu

ar lefel sefydliad

☐ Gweithgarwch arloesi, gan gynnwys cefnogi mentrau ar lawr gwlad (er enghraifft gweithgareddau a arweinir gan

'Grwpiau Gwyrdd' o fewn sefydliadau)

☐ Arall (nodwch) ………………………………………………………………………………………………….

### *A.1.4.* Ar ba ôl troed carbon mae'r prosiect hwn yn effeithio?

Mae'n bwysig deall sut gallai'r prosiect gyfrannu at leihau allyriadau yn ôl llinell sylfaen sefydledig. Disgwylir i un neu sawl un o'r olion troed canlynol fod yn berthnasol.

☐ GIG Cymru (~1,000,000 tCO2e y flwyddyn)

☐ Gofal cymdeithasol yng Nghymru (~460,000 tCO2e y flwyddyn)

☐ Gofal sylfaenol (nid yw’n cael ei amcangyfrif yn ôl troed carbon GIG Cymru na Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd) Dylech gynnwys esboniad yn y blwch isod o sut mae eich prosiect yn berthnasol i ofal sylfaenol a sut y mae’r tu allan i gwmpas ôl troed GIG Cymru a Gofal cymdeithasol yng Nghymru.

☐ Dim o’r uchod

……………………………………………………………..

Dylech gynnwys esboniad o sut mae eich prosiect y tu allan i gwmpas ôl troed GIG Cymru, Gofal cymdeithasol yng Nghymru a gofal sylfaenol.

**Esboniad**

| |
|---|
| |

### *A.1.5.* Ar ba gam mae eich prosiect?

Bydd prosiectau wedi bod ar wahanol gamau yn eu datblygiad pan wnaethant dderbyn cyllid. Nodwch pa gam mae eich prosiect wedi ei gyrraedd nawr.

☐ Cam cysyniad – asesodd eich prosiect ymarferoldeb ar gyfer eich sefydliad

☐ Cam cynnar – nid oedd eich prosiect wedi bodoli yn eich sefydliad yn flaenorol

☐ Cam datblygedig – roedd y gweithgarwch wedi bodoli’n flaenorol, ac fe wnaeth eich prosiect gynyddu graddfa, cyflymder neu effaith y gweithgarwch

**Sylwadau (dewisol)**

| |
|---|
| |

## A.2 Mesur llwyddiant

Mae Adran A.2 yn rhoi'r dull gwerthuso ar waith, sy'n defnyddio fframwaith coch, oren, gwyrdd (COG) i werthuso'r prosiect ar draws tri chategori: **Lleihau Carbon**, **Gwerth am Arian**, ac **Effaith Sefydliadol**. Bydd gan y categorïau hyn lefelau amrywiol o berthnasol ar draws gwahanol brosiectau. Ar gyfer pob cwestiwn perthnasol, nodwch effaith y prosiect.

### A.2.1 Lleihau carbon

**Dull cyfrifo effaith carbon**

Ar gyfer pob prosiect, hoffem ddeall yr effaith carbon uniongyrchol, a'r potensial ehangach o effaith carbon (e.e. os caiff y prosiect hwn ei ailadrodd / ei dyfu yn y dyfodol), wedi'i fesur mewn tunelli o garbon deuocsid a'i gyfatebol (tCO2e) - hyd yn oed os mai amcangyfrif yn unig yw hwn.

Os nad oes gan y prosiect gyfrifiad effaith carbon presennol, gellir defnyddio canllaw a thaenlen ar gyfer adrodd ar garbon sector cyhoedd Cymru i roi amcangyfrif.

Sylwer: bwriedir i ganllaw a thaenlen ar gyfer adrodd ar garbon sector cyhoeddus Cymru gael eu cyflawni gan sefydliadau cyfan ar gyfer blwyddyn gyfan o ddata, felly bydd angen dull wedi'i addasu i asesu effaith carbon prosiect unigol.

Cyn cychwyn eich cyfrifiad effaith carbon, ystyriwch:

- Ddangosyddion / metrigau yn ymwneud â'r prosiect
- Categorïau allyriadau a ddylanwadir gan y prosiect
- Newidiadau eraill sy'n rhyngweithio yn y sefydliad a allai effeithio ar ddangosyddion / metrigau, a chywirdeb neu hyd yn oed priodoldeb cyfrifo'r effaith carbon
- Amserlenni'r prosiect h.y. pa un a oes angen dull pro-rata lle mae gwerth llai na blwyddyn o ddata ar gael

Os ydych yn defnyddio taenlen adrodd carbon sero-net y sector cyhoeddus

- Nid oes angen i chi gwblhau'r tab 'Cyflwyniad'.
- Dewiswch y tab perthnasol ar gyfer eich math o brosiect:
  - Adeiladau, fflyd ac asedau eraill
  - Teithio busnes, cymudo, cartref
  - Defnydd tir
  - Gwastraff
  - Cadwyn gyflenwi
  - Ynni adnewyddadwy

- Nodwch yr holl ffynonellau allyriadau a ddylanwadir gan y prosiect.
- Dilynwch y dull i gyflawni cyfrifiad yn seiliedig ar y dangosyddion / metrigau sydd ar gael i alinio â mewnbynnau'r daenlen.

**I gyfrifo'r effaith carbon uniongyrchol:**

- Cwblhewch gofnod (llinell yn y daenlen) ar gyfer pob ffynhonnell allyriadau i gyfrifo'r ôl troed carbon cyn sefydlu'r prosiect, dros flwyddyn.
- Cwblhewch gofnod (llinell yn y daenlen) ar gyfer pob ffynhonnell allyriadau i gyfrifo'r ôl troed carbon ar ôl sefydlu'r prosiect, dros flwyddyn.
- Tynnwch yr ôl troed carbon ar ôl y prosiect o'r ôl troed carbon cyn y prosiect, i ddarganfod yr effaith carbon dros flwyddyn.
- Bydd y canlyniad hwn mewn kgCO2e - er mwyn deall y gymhariaeth yn erbyn eich llinell sylfaen a ddetholwyd, trowch y rhif hwn yn tCO2e:
    - kgCO2e/1000 = tCO2e.

**I gyfrifo'r effaith carbon posibl ehangach:**

- Gan ddefnyddio'r data a gasglwyd, amcangyfrifwch yr effaith y gallai tyfu eich prosiect ei chael e.e., os ydych wedi disodli nifer benodol o fylbiau halogen gydag atebion effeithlon o ran ynni, amcangyfrifwch effaith disodli mwy o fylbiau.
- Cofnodwch y tybiaethau allweddol yr ydych wedi eu gwneud yn y cyfrifiad hwn h.y., i ba raddau y tyfwyd y prosiect, sawl gwaith y'i hailadroddwyd ac ati.

### A.2.1.1 Beth oedd effaith carbon uniongyrchol eich prosiect dros flwyddyn?

Os oedd eich prosiect yn targedu lleihau carbon, nodwch i ba raddau y cyflawnwyd hyn o ran yr ôl troed carbon perthnasol (GIG Cymru neu ofal cymdeithasol yng Nghymru; os gofal sylfaenol, ystyriwch a oes data o'ch sefydliad).

Rhannwch effaith carbon uniongyrchol eich prosiect (gweler y cyfrifiad uchod) gyda'r ôl troed carbon perthnasol i amcangyfrif y gostyngiad canrannol i garbon a sicrhawyd:

☐ Effaith uchel (lleihad ôl troed o 0.5 - 3.0%)

☐ Effaith ganolig (lleihad ôl troed o hyd at 0.5%)

☐ Effaith isel / dibwys

☐ Ni chyfrifwyd effaith carbon (nodwch reswm) ……………………………………………………..

**Cyfiawnhad**

| |
|---|
| |

### A.2.1.2 Beth yw effaith carbon posibl ehangach eich prosiect dros flwyddyn (e.e. os caiff y prosiect hwn ei ailadrodd / ei dyfu yn y dyfodol – nodwch y tybiaethau allweddol)?

Dyfarnwch i ba raddau y mae'r prosiect yn galluogi'r potensial ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn y maes targed dymunol.

Rhannwch effaith carbon posibl ehangach eich prosiect (gweler y cyfrifiad uchod) gyda'r ôl troed carbon perthnasol i amcangyfrif y gostyngiad canrannol i garbon sy'n bosibl:

☐ Effaith uchel (lleihad ôl troed o 0.5 - 3.0%)

☐ Effaith ganolig (lleihad ôl troed o hyd at 0.5%)

☐ Effaith isel / dibwys

☒ Ni chyfrifwyd effaith carbon (nodwch reswm)

Cyfiawnhad

## A.2.2. Gwerth am arian

### 2.2.1 I ba raddau wnaeth eich prosiect ryddhau arian parod?

Aseswch i ba raddau wnaeth y prosiect ryddhau arian parod. Os gwnaeth eich prosiect ryddhau arian parod, nodwch hefyd faint o arian parod a ryddhawyd.

☐ Rhyddhad uchel – roedd yr arian parod a ryddhawyd yn fwy na chost eich prosiect (swm a ryddhawyd) ………………

☐ Rhyddhad cyfyngedig – roedd yr arian parod a ryddhawyd yr un faint neu'n llai na chost eich prosiect (swm a ryddhawyd) ………………..

☐ Dim rhyddhad – ni ryddhawyd unrhyw arian parod gan eich prosiect

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) ……………………………………………………………………...

**Esboniad**

| |
|---|
| |

### 2.2.2 I ba raddau wnaeth eich prosiect ryddhau capasiti?

Nodwch isod i ba raddau wnaeth eich prosiect ryddhau capasiti.

☐ Rhyddhad uchel – roedd y capasiti a ryddhawyd yn fwy na’r capasiti a fuddsoddwyd yn eich prosiect

☐ Rhyddhad cyfyngedig – roedd y capasiti a ryddhawyd yr un faint neu’n llai na’r capasiti a fuddsoddwyd yn eich prosiect

☐ Dim rhyddhad – ni ryddhawyd unrhyw gapasiti gan eich prosiect

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) …………………………………………………………………..

**Esboniad**

| |
|---|
| |

### 2.2.3 I ba raddau wnaeth eich prosiect osgoi costau?

Nodwch isod i ba raddau wnaeth eich prosiect osgoi costau.

☐ Osgoi uchel – roedd y costau a gafodd eu hosgoi yn fwy na chost eich prosiect

☐ Osgoi cyfyngedig – roedd y costau a gafodd eu hosgoi yr un faint neu'n llai na chost eich prosiect

☐ Dim osgoi – ni chafodd unrhyw gostau eu hosgoi gan eich prosiect

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) ………………………………………………………………………..

**Esboniad**

| |
|---|
| |

## A.2.3. Effaith sefydliadol

### 2.3.1 Pa mor agos mae eich prosiect yn alinio â strategaeth / polisi perthnasol?

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â'r strategaethau datgarboneiddio ehangach fel: Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru; Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru; Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru; strategaeth datgarboneiddio / newid hinsawdd eich sefydliad. Efallai y bydd strategaethau neu bolisïau eraill, felly nodwch pa strategaethau y mae eich prosiect yn cyd-fynd â nhw. Os nad yw eich prosiect yn cysylltu â strategaeth, dewiswch 'aliniad cyfyngedig' neu 'amherthnasol' yn dibynnu ar ganlyniadau'r prosiect.

☐ Aliniad agos (nodwch y maes strategol / polisi penodol y mae eich prosiect yn alinio'n agos ag ef)

……………………………………………………………………………………………………………………

☐ Aliniad rhannol (nodwch y maes strategol / polisi penodol y mae eich prosiect yn alinio'n rhannol ag ef)

……………………………………………………………………………………………………………………

☐ Aliniad cyfyngedig (rhowch reswm) …………………………………………………………………………..

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) …………………………………………………………………………

### 2.3.2 Pa mor barod i dyfu yw eich prosiect, naill ai ar draws eich sefydliad eich hun neu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach?

Nod y cwestiwn hwn yw nodi cyfleoedd posibl i ehangu prosiectau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Diffinnir **Gallu mawr i dyfu** fel hawdd ac effeithlon i'w ehangu neu ei ailadrodd ar raddfa fwy, â disgwyliad o ychydig iawn o rwystrau neu heriau.

Diffinnir **Gallu rhannol i dyfu** fel bod â'r potensial i gael ei ehangu neu ei ailadrodd ar raddfa fwy, ond disgwylir iddo wynebu rhai rhwystrau neu heriau hysbys a allai gyfyngu ar ei allu i dyfu. Gallai'r rhwystrau hyn gynnwys pethau fel cyfyngiadau adnoddau, cyllid cyfyngedig, neu rwystrau sefydliadol.

Diffinnir **Gallu cyfyngedig i dyfu** fel bod ag ychydig o botensial i gael ei ehangu neu ei ailadrodd ar raddfa fwy oherwydd rhwystrau neu heriau sylweddol. Gallai'r rhwystrau hyn gynnwys pethau fel costau uchel neu ddiffyg adnoddau, sy'n gwneud tyfu yn anymarferol.

Nodwch faint gallu eich prosiect i dyfu.

- ☐ Gallu mawr i dyfu, â chyn lleied o rwystrau â phosibl (disgrifiwch) ………………………………………………………….
- ☐ Gallu rhannol i dyfu, rhai rhwystrau hysbys (disgrifiwch) …………………………………………………………..
- ☐ Gallu cyfyngedig i dyfu, rhwystrau sylweddol (rhowch reswm) …………………………………………………………
- ☐ Amherthnasol (rhowch reswm) ………………………………………………………………………………

### 2.3.3 Beth yw'r potensial i'r prosiect hwn gynyddu ymgysylltiad â'r agenda datgarboneiddio / newid hinsawdd ar draws eich sefydliad neu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach?

Nod y cwestiwn hwn yw deall nodau ymgysylltiad eich prosiect.

Diffinnir **Potensial uchel** fel ymgysylltu â mwy nag un grŵp cynulleidfa mawr, e.e. staff a chleifion ysbyty.

Diffinnir **Rhywfaint o botensial** fel ymgysylltu ag un grŵp cynulleidfa yn unig, e.e. sefydliadau llawr gwlad lleol.

Diffinnir **Potensial cyfyngedig** fel ymgysylltu â dim grwpiau y tu hwnt i dîm y prosiect.

☐ Potensial uchel, mae eich prosiect yn ymgysylltu â chynulleidfa eang y tu hwnt i'ch tîm prosiect uniongyrchol (disgrifiwch)

……………………………………………………………………………………………………………………………………

☐ Rhywfaint o botensial, mae eich prosiect yn ymgysylltu â chynulleidfa y tu hwnt i'ch tîm prosiect uniongyrchol (disgrifiwch)

……………………………………………………………………………………………………………………………………..

☐ Potensial cyfyngedig, mae eich prosiect yn annhebygol o gynyddu ymgysylltiad y tu hwnt i'ch tîm prosiect uniongyrchol (rhowch reswm)

…………………………………………………………………………………………………………

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) ………………………………………………………………………………..

### 2.3.4. I ba raddau mae eich prosiect yn cyflawni o ran egwyddorion arfer clinigol cynaliadwy?

Mae'r cwestiwn hwn yn ceisio asesu sut mae'r prosiect yn hwyluso gwell canlyniadau i gleifion trwy fynd ar drywydd gweithgareddau sy'n cyd-fynd ag amcanion iechyd cleifion ac amgylcheddol tra'n ceisio lleihau ôl troed carbon y sector. Yn ôl y Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy, mae gwerth cynaliadwy ym maes gofal iechyd yn cyfeirio at ddarparu gofal o ansawdd uchel heb niweidio'r amgylchedd sy'n fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol ac yn cael effaith gymdeithasol gadarnhaol. Cyflwynir gwerth cynaliadwy fel:

$$\frac{\text{Canlyniad i gleifion a phoblogaethau}}{\text{effeithiau amgylcheddol+cymdeithasol+ariannol (y 'waelodlin driphlyg')}} = \text{Gwerth cynaliadwy}$$

Diffinnir **Yn cyflawni'n gryf** fel y prosiect yn cyflawni amcanion gofal iechyd sydd wedi'u dylunio a'u gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau cyn lleied â phosibl o effeithiau amgylcheddol negyddol, yn lleihau effeithiau ariannol ac yn hybu effeithiau cymdeithasol cadarnhaol.

Diffinnir **Yn cyflawni'n rhannol** fel gweithredu mesurau sy'n hybu gwerth cynaliadwy ond sydd â lle i wella, fel bod angen eu hintegreiddio ymhellach i weithrediadau.

Diffinnir **Cyflawniad cyfyngedig** fel y prosiect yn cael ychydig o effaith ar hybu cynaliadwyedd mewn darpariaeth gofal iechyd.

☐ Yn cyflawni'n gryf, gall eich prosiect ddangos gwerth cynaliadwy yn ôl fframwaith SusQI, lle caiff canlyniadau iechyd eu darparu neu hyd yn oed eu gwella trwy effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, ac ariannol cyn lleied â phosibl (disgrifiwch)

………………………………………………………………………………………………………………………….

☐ Yn cyflawni'n rhannol, mae eich prosiect yn dangos canlyniad cadarnhaol i gleifion ond efallai nad yw'n sicrhau bod pob effaith cyn lleied â phosibl, gallai ddangos effeithiau sydd cyn lleied â phosibl ond arwain at fân welliannau i ganlyniadau cleifion (disgrifiwch)

…………………………………………………………………………………………………………………………..

☐ Cyflawniad cyfyngedig, mae eich prosiect yn cyflawni newid cadarnhaol cyfyngedig i gleifion, ac nid yw'n lleihau effeithiau ar y waelodlin driphlyg chwaith (rhowch reswm)

……………………………………………………………………………………………………

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) ………………………………………………………………………..

# Atodiad B: Geirfa

| Termau allweddol | Diffiniad |
| --- | --- |
| **Gostyngiad carbon uniongyrchol** | Lleihau allyriadau carbon y gellir eu mesur o ganlyniad i'r prosiect dros flwyddyn. |
| **Effaith carbon posibl ehangach** | Y potensial ar gyfer lleihau allyriadau carbon y tu hwnt i'r gostyngiad uniongyrchol a gyflawnir gan y prosiect, h.y., lle gellid tyfu neu ailadrodd y prosiect ar draws gwahanol adrannau neu sefydliadau. Lle na sicrhawyd gostyngiad uniongyrchol, gallai'r potensial lleihau carbon ehangach gyfeirio at y gostyngiad carbon disgwyliedig a allai gael ei alluogi gan y prosiect. |
| **Rhyddhad arian parod** | Arbediad lle mae'r ymyrraeth yn sicrhau arbediad arian parod ffisegol y gellir ei adennill a'i wario yn rhywle arall yw arbediad rhyddhad arian parod. Un enghraifft o arbediad arian parod fyddai ymyrraeth sy'n arwain at ddileu'r angen i'r claf ddefnyddio adnoddau penodol. |
| **Rhyddhad capasiti** | Arbediad sy'n sicrhau arbediad effeithlonrwydd yr arbediad rhyddhad capasiti. Mae'n ymwneud â'r potensial ar gyfer rhyddhau adnoddau neu wella prosesau o ganlyniad i ymyrraeth neu gam gweithredu penodol. Os bydd ymyrraeth yn sicrhau digon o ryddhad capasiti, mae'n bosibl iawn y gallai droi'n arbediad rhyddhad arian parod yn y pen draw. E.e. os yw'r ymyrraeth yn atal 50% o'r holl gleifion rhag mynychu'r ward, gallai fod yn bosibl troi'r arbediad yn arian parod. |
| **Osgoi costau** | Cynllun sy'n lliniaru pwysau costau yn y dyfodol yw cynllun osgoi costau. Nid yw'n sicrhau arbediad arian parod, ond mae'n atal yr angen am fuddsoddiad arian parod yn y dyfodol. E.e. gellir rhagweld heddiw, oherwydd twf yn y boblogaeth henoed y byddwn angen mwy o gapasiti cartrefi gofal dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gallai ymyrraeth sy'n galluogi mwy o gleifion i dderbyn gofal gartref atal y pwysau costau newydd hyn rhan dod i'r amlwg. |
| **Aliniad strategol** | I ba raddau y gall y prosiect ddangos aliniad ag amcanion, nodau, neu flaenoriaethau strategol ehangach. Gallai hyn gynnwys aliniad â thargedau cynaliadwyedd, nodau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, neu flaenoriaethau polisi ehangach. |
| **Gallu i dyfu** | Y potensial i ymyrraeth neu gam gweithredu penodol gael ei dyfu neu ei ailadrodd mewn cyd-destunau neu leoliadau eraill. Gallai hyn gynnwys y potensial i'r ymyrraeth neu gam gweithredu gael ei fabwysiadu neu ei ddefnyddio yn ehangach. |
| **Potensial ymgysylltu** | Y potensial sydd gan y prosiect i ymgysylltu â rhanddeiliaid neu gymunedau ar yr agenda datgarboneiddio / newid hinsawdd. Gallai hyn gynnwys cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus, addysg, neu godi ymwybyddiaeth am faterion cynaliadwyedd. |

| | |
|---|---|
| **Gofal iechyd cynaliadwy** | Yn ôl y Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy, mae gwerth cynaliadwy ym maes gofal iechyd yn cyfeirio at ddarparu gofal o ansawdd uchel heb niweidio’r amgylchedd sy’n fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol ac yn cael effaith gymdeithasol gadarnhaol. |

# Atodiad B: Adborth astudiaethau achos a gwerthusiadau prosiect

## 1. Astudiaeth achos: Astudiaeth Ecolegol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Diffyg dealltwriaeth o sefyllfa bresennol Bioamrywiaeth ar draws safleoedd, y cyfleoedd posibl sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd a deall cwmpas y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen mewn bioamrywiaeth ar draws safleoedd BIPAB i wella a chael effaith ar yr amgylchedd.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Deall bioamrywiaeth, llinell sylfaen ecolegol a chyfleoedd ar gyfer gwella ar draws 5 o brif safleoedd BIPAB.

Helpu i gynorthwyo prosiectau buddsoddiad cyfalaf i wella canlyniadau ecolegol rhaglenni ehangach.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Llwyddiannus iawn. Fe wnaeth yr adroddiadau a luniwyd fynd y tu hwnt i gynnwys y fanyleb / cwmpas gwaith gwreiddiol. Er enghraifft, nodi rhywogaethau allweddol a chyfleoedd ar gyfer newid arferion rheoli tir.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Cynnwys a thrylwyredd yr adroddiadau. Mae hyn wedi cynnig mwy o ddealltwriaeth a gwybodaeth am rywogaethau a chynefinoedd allweddol ar safleoedd BIPAB.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Problemau ynghylch y contract a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r contractwr o ganlyniad i'r fframwaith caffael a ddefnyddiwyd gan BIPAB a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP). Hefyd, mae astudiaethau o'r fath yn dymhorol ac mae'r canlyniadau gorau yn fwyaf tebygol ym misoedd yr haf.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Roedd y cyllid IaGC i gynnal y prosiect i gychwyn yn allweddol i hwyluso hyn. Hefyd, y broses dendro a gwerthuso o ran sicrhau y dyfarnwyd y prosiect i'r contractwr mwyaf addas.

## Gwerthusiad prosiect – Astudiaeth Ecolegol – BIPAB

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd – mae'r prosiect hwn yn ceisio hysbysu'r bwrdd iechyd am gyfleoedd i ddatblygu prosiectau bioamrywiaeth / ecolegol pellach.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Effaith isel – gellid tyfu'r prosiect hwn i gynnwys mwy o fyrddau iechyd yn cyflawni astudiaethau o'r fath.

### Rhyddhad arian parod

Amherthnasol – cyflawnwyd y prosiect gan bractis ymgynghori, felly ddim yn rhyddhau arian parod.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol – adroddiadau ymgynghori oedd yr allbwn, a ddatblygwyd gan drydydd parti.

### Osgoi costau

Amherthnasol - efallai y bydd cyfleoedd yn y dyfodol a fydd yn cynhyrchu arbedion, yn amodol ar adolygu pellach e.e., lleihau prisiau contractau ar gyfer torri glaswellt wedi'i fyrhau ar safleoedd.

### Aliniad strategol

Aliniad - yn cysylltu ag adran Cynllunio Defnydd Tir y Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio, ac yn berthnasol i'r gofyniad data Adrodd Sero Net.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – gellid tyfu astudiaethau bioamrywiaeth i fyrddau iechyd eraill, fel y gwnaeth BIPAB i gydweithredu â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – potensial i ymgysylltu â staff, cleifion, y cyhoedd a'r trydydd sector i ddatblygu a gweithredu prosiectau.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Cyflawniad cyfyngedig – bydd canlyniadau i gleifion yn cael eu penderfynu gan y prosiectau a gyflawnwyd oherwydd yr argymhellion a wnaed gan adroddiad yr astudiaeth.

## 2. Astudiaeth achos: Cymrawd Clinigol mewn Cynaliadwyedd – BIPAB

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Lliniaru rhag effaith amgylcheddol gwastraff o faniffoldau ocsid nitrus. Lleihau defnydd ynni mewn theatrau ar draws holl ystâd BIPAB.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Datgomisiynu maniffoldau ocsid nitrus a lleihau prynu (data gan y cwmni nwy 'BOC' a'r fferyllfa).

Dangos gostyngiad mesuradwy i ddefnydd ynni mewn theatrau ar draws BIPAB.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Datgomisiynwyd maniffoldau ocsid nitrus ar 2 safle (Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall). Gweithgorau ar waith i ddatgomisiynu 2 safle arall.

Cau theatrau i lawr ar draws 2 safle, â gweithgorau a chynnydd sylweddol ar 2 safle arall.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Addysg ac ymgysylltiad staff ehangach trwy Fwrdd Rhaglen Ddatgarboneiddio BIPAB. Mae bod y bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i ddatgomisiynu'r maniffoldau wedi cynorthwyo ymgysylltiad staff ehangach a syniadau yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r Rhaglen a llwyddiant dan arweiniad clinigol.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid allweddol, rhyngddibyniaethau i fodloni terfynau amser y prosiect, a chyllid cynaliadwy ar gyfer caffael offer newydd.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Cyfathrebu ac ymgysylltu â gwasanaethau ar draws BIPAB; y rhyngddibyniaethau i wneud y prosiect hwn yn llwyddiannus ar draws isadrannau a thimau clinigol a rheoli.

## Gwerthusiad prosiect – Cymrawd Clinigol mewn Cynaliadwyedd – BIPAB

| Gwerthusiad prosiect |
| --- |
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Effaith isel/dibwys – ar ôl datgomisiynu 2 safle, arbedion a gyfrifwyd o 301,482 cilogram $CO_2e$ y flwyddyn. Sy'n llai nag 1% o 1,000,000 tunnell.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Effaith isel/dibwys – cyfrifir cyfanswm yr arbedion posibl o ddatgomisiynu maniffold ocsid nitrus ar 2 safle arall fel 856,494 cilogram $CO_2e$ y flwyddyn.

### Rhyddhad arian parod

Rhyddhad uchel – arbedion ariannol posibl o £43,000, arbedion ynni o gau systemau glanhau y tu allan i oriau arferol, a chostau trwsio pympiau glanhau.

### Rhyddhad capasiti

Rhyddhad uchel – rhyddhau amser staff porthorion a staff cynnal a chadw o faniffold nad oes ei angen. Arbedion o staff ystadau trwy beidio â phrofi pibellau ocsid nitrus mwyach.

### Osgoi costau

Osgoi uchel – arbedion ar gynnal a chadw pympiau glanhau.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – mae'n cyd-fynd â gostyngiad i allyriadau uniongyrchol gan nwyon anesthetig a defnydd ynni.

### Gallu i dyfu

Gallu mawr i dyfu – gwnaed y gwaith hwn mewn byrddau iechyd ledled Cymru a'r GIG ehangach.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – y prosiectau hyn fu'r ysgogiad ar gyfer newid i lawer o brosiectau eraill trwy addysg a hyfforddiant staff.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n gryf.

## 3. Astudiaeth achos: Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd – Comisiwn Bevan

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Lleihau gwastraff amhriodol ar draws iechyd a gofal.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Cynyddu ymwybyddiaeth o wastraff ym maes iechyd a gofal, yn ysbrydoli newid diwylliant ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach. Lleihau gwastraff ar draws meysydd allweddol, meddyginiaeth, plastig untro, ac ati.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Rhy gynnar i ddweud, mae'r prosiect wrthi'n symud i'r cam gweithredu.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Rhy gynnar i ddweud, mae'r prosiect wrthi'n symud i'r cam gweithredu.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Rhy gynnar i ddweud, mae'r prosiect wrthi'n symud i'r cam gweithredu.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Rhy gynnar i ddweud, mae'r prosiect wrthi'n symud i'r cam gweithredu.

## Gwerthusiad prosiect – Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd – Comisiwn Bevan

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd – gan fod y prosiect ar y cam cyntaf, cynllunio a pharatoi.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Effaith isel/dibwys – mae hyn yn seiliedig ar ganlyniadau disgwyliedig presennol.

### Rhyddhad arian parod

Amherthnasol – oherwydd cam y prosiect, sef y cam cynllunio a pharatoi cynnar.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol – oherwydd cam y prosiect, sef y cam cynllunio a pharatoi cynnar.

### Osgoi costau

Amherthnasol – oherwydd cam y prosiect, sef y cam cynllunio a pharatoi cynnar.

### Aliniad strategol

Aliniad rhannol – yn gysylltiedig â mentrau 39, 44, a 45 y cynllun Datgarboneiddio.

### Gallu i dyfu

Amherthnasol – rhy gynnar yn y prosiect i benderfynu.

### Potensial ymgysylltu

Rhywfaint o botensial - nodai'r prosiect i gael effaith ar draws IaGC.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n rhannol – nod y prosiect yw cael effaith ar draws IaGC.

## 4. Astudiaeth achos: Prosiect Ansawdd Aer – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF)

**Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:**

Mae Tîm y Prosiect wedi dynodi y byddant yn cyfrannu at astudiaeth achos pan fydd y monitro wedi'i gwblhau a bod y tîm wedi ymgysylltu â'r sefydliad a rhanddeiliaid allweddol gyda'r canfyddiadau.

**Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:**

Fel yr uchod.

**Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:**

Fel yr uchod.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:**

Fel yr uchod.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:**

Fel yr uchod.

**Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:**

Fel yr uchod.

## Gwerthusiad prosiect – Prosiect Ansawdd Aer - BIPCAF

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd - rydym ar y cam casglu data cychwynnol ar hyn o bryd, i ddeall ansawdd aer. Y bwriad yw y bydd hyn yn cael effeithiau ar gynllunio teithiau o fewn y sefydliad, a fydd yn lleihau allyriadau $CO_2$.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd – fel yr uchod, ni chyfrifwyd hyn yn ffurfiol eto gan y bydd yn dibynnu ar yr ymyriadau a gynigir.

### Rhyddhad arian parod

Dim rhyddhad – ni fwriedir iddo ryddhau arian parod.

### Rhyddhad capasiti

Dim rhyddhad – ni fwriedir iddo ryddhau capasiti.

### Osgoi costau

Dim osgoi – ni fwriedir iddo osgoi costau – er os bydd camau dilynol yn gwella ansawdd aer ar y safle yna bydd costau yn cael eu rhyddhau yn y pen draw trwy lai o salwch.

### Aliniad strategol

Aliniad rhannol – mae newid dulliau teithio yn rhan allweddol o gynllun cyflenwi strategol datgarboneiddio GIG Cymru.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – mae mesur $NO_2$ trwy diwbiau tryledu yn gymharol syml a rhad; fodd bynnag, mae dehongli'r data a gweithredu arnynt yn gywir yn gymhleth.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – os caiff ei chyfathrebu yn effeithiol, mae gan wybodaeth am ansawdd aer ar safleoedd ysbyty y potensial i ymgysylltu â nifer o wahanol gynulleidfaoedd o ran deall effaith ymddygiad trafnidiaeth ar yr amgylchedd.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n gryf – mae llygredd aer yn ffactor risg hysbys ar gyfer salwch, wedi'i ddosbarthu yn anghyfartal, felly mae gan hyn y potensial o wella canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yn ogystal â chanlyniadau ar gyfer cleifion a phoblogaethau.

## 5. Astudiaeth achos: Arweinyddiaeth glinigol ar gyfer datgarboneiddio a chynaliadwyedd – BIPCAF

**Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:**

Creu arweinyddiaeth glinigol o fewn gofal iechyd cynaliadwy yn CAF a thu hwnt.

**Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:**

Tyfu, datblygu a dechrau ymwreiddio gofal iechyd cynaliadwy mewn gwerthoedd gofal iechyd a bywyd beunyddiol.

**Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:**

Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i ariannu'r swydd hon yn fewnol yn y dyfodol.

Mae gan y swydd amcanion hirdymor na ellir eu cyflawni o fewn blwyddyn, felly mae arweinydd y prosiect wedi'i galonogi'n enfawr gan y ffaith fod y BIP yn buddsoddi yn y swyddi tymor hwy hyn.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:**

Ehangu'r amnest cymhorthion cerdded. Creu agenda gynaliadwyedd mewn cyfarfodydd arweinyddiaeth therapïau misol.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:**

Diffyg amser. Gallai hon fod yn swydd lawn amser. Roedd gan y prosiect yr hyn a oedd yn cyfateb i 1/7 i gyfarfod â phobl i greu perthynas ac yna bwrw ymlaen â gwaith, sy'n arwain at gynnydd araf.

**Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:**

Creu perthynas ac ymddiriedaeth â phobl.

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd – yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth o fewn y sefydliad.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd – yn canolbwyntio ar strategaeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

### Rhyddhad arian parod

Amherthnasol.

### Rhyddhad capasiti

Rhyddhad uchel – mae staff uwch wedi arwain y ffordd i fuddsoddi yn y swydd hon gyda’r sefydliad a hefyd i fuddsoddi mewn cymrawd arweinyddiaeth glinigol llawn amser.

### Osgoi costau

Dim osgoi.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – datgarboneiddio sector cyhoeddus Archwilio Cymru, cynllun datgarboneiddio GIG Cymru, cynllun cynaliadwyedd CAF.

### Gallu i dyfu

Gallu mawr i dyfu – gallai ailgreu’r strwythur sefydliadol yn rhwydd o fewn CAF ac yna greu rhwydweithiau sy’n helpu i fwydo rhwydwaith Iechyd Gwyrdd Cymru.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – gallai tîm y prosiect ail-greu’r strwythur sefydliadol o fewn CAF yn rhwydd ar gyfer byrddau iechyd ac yna creu rhwydweithiau ymhlith yr arweinwyr ar gyfer pob ardal a chreu pwyntiau nodol sy’n helpu i fwydo rhwydwaith Iechyd Gwyrdd Cymru hefyd.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni’n gryf – mae gwerth cynaliadwy yn ganolog i bopeth.

## 6. Astudiaeth achos: Lleihau Ocsid Nitrus ac Entonox - BIPCAF

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Yn BIP Caerdydd a'r Fro, mae'r Prosiect Ocsid Nitrus wedi gweithio i leihau defnydd y Bwrdd Iechyd o ocsid nitrus a bydd yn arbed tua 1 filiwn litr o ocsid nitrus y flwyddyn, sy'n cyfateb i 535 tunnell o CO2. Nod BIPCAF yw gwasgaru hyn ledled Cymru a sicrhau newid diwylliant oddi wrth y defnydd o N2O.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Lleihau'r defnydd o ocsid nitrus trwy ddull darparu amgen h.y. silindrau llai. Entonox i gyflwyno technoleg 'gracio' newydd.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Fe wnaethom gau dau faniffold ocsid nitrus ac eleni rydym yn datgomisiynu dau sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd un maniffold Entonox yn cau eleni ac mae'r dechnoleg gracio wedi'i mabwysiadu ar sail brawf yn yr adran famolaeth.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Ymgysylltu â'r holl dimau a'r nod gyffredin o leihau allyriadau ac adborth cleifion yw bod y dechnoleg 'gracio' yn gadarnhaol ac yn cyd-fynd yn gryf â gwerthoedd cleifion.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Amser staff o fewn y prosiect.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Arweinyddiaeth glinigol ac amser clinigol a ariannwyd.

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd – nid yw'n bosibl mesur rhyddhad Entonox. Ocsid nitrus: mae tîm y prosiect wedi lleihau danfoniadau o silindrau mawr ac felly wedi lleihau eu defnydd.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Effaith ganolig - i'w fonitro gan fod dau faniffold ocsid nitrus wedi'u cau a bydd dau yn dilyn. Gwnaed gwaith i atal gollyngiadau o bibellau Entonox. Mae'n bosibl y gallai hyn fod yn ostyngiad o 70% ond mae angen ei egluro.

### Rhyddhad arian parod

Rhyddhad cyfyngedig – llai o rentu silindrau nwy.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol – ni arbedwyd unrhyw amser drwy'r prosiect.

### Osgoi costau

Osgoi cyfyngedig – lleihad i brynu nwy a gwastraff.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – nid oes modd sicrhau sero net oni bai fod y gwaith hwn yn cael ei wneud.

### Gallu i dyfu

Gallu mawr i dyfu – y rhwystr yw capasiti amser, ond roedd pawb yn cytuno mai dyma'r ffordd ymlaen.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – roedd y prosiect hwn yn flaenllaw ar yr agenda a nodwyd prosiectau eraill bellach – diwylliant gofal iechyd cynaliadwy yn cael ei fabwysiadu a'i hyrwyddo.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n gryf – yn bodloni'r holl feini prawf – manteision cymdeithasol, amgylcheddol, ac ariannol (dim cost i adnodd y prosiect).

## 7. Astudiaeth achos: Sbecwla amldro - BIPCAF

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Nod y prosiect hwn oedd croesawu egwyddorion economi gylchol sy'n hanfodol mewn gofal iechyd cynaliadwy trwy leihau'r defnydd o ddyfeisiau plastig untro yn gyfnewid am rhai metel amldro.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Canlyniad targed y prosiect hwn oedd lleihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â sbecwla plastig untro yn ogystal â lleihau ffrydiau gwastraff tra'n cynnal gofal clinigol da.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Mae'r prosiect wedi arwain at ostwng cynhyrchiad nwyon tŷ gwydr tra'n cynnal neu wella profiad staff a chleifion a lleihau cynhyrchiad gwastraff plastig.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Mae gweithrediad y prosiect wedi cael adborth da gan gleifion a staff a chroesawyd y newid gan y gwasanaeth.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Y prif heriau oedd prynu'r sbecwla metel o ran costau a heriau caffael, a'r logisteg o weithredu'r newid o ran sterileiddio a newid gweithdrefnau mewnol.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Mae cyfathrebu da gyda chlinigwyr a chleifion ynghylch y rhesymau am y newid a chasglu adborth trwy weithrediad gan y ddau grŵp wedi helpu'r prosiect i lwyddo.

| Gwerthusiad prosiect |
| --- |
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Effaith isel/dibwys - 1.5 $tCO_2e$ yw effaith carbon amcangyfrifedig y newid hwn dros flwyddyn, sy'n cyfateb i % dibwys o gyfanswm $CO_2e$ y GIG.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Isel/dibwys - hyd yn oed pe bai'r prosiect hwn yn cael ei dyfu i gynnwys yr holl sbecwla a ddefnyddir o fewn y sefydliad, byddai hyn yn dal i gael effaith ddibwys ar ôl troed cyffredinol y GIG.

### Rhyddhad arian parod

Rhyddhad cyfyngedig – caiff arian parod ei ryddhau gan yr angen llai i brynu sbecwla plastig untro. Fodd bynnag, mae cost hyn yn cael ei mantoli gan y gost gynyddol o sterileiddio sbecwla amldro.

### Rhyddhad capasiti

Dim rhyddhad.

### Osgoi costau

Amherthnasol – ni chafodd unrhyw gostau eu hosgoi gan y prosiect hwn.

### Aliniad strategol

Aliniad cyfyngedig – mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'r ffrwd weithgarwch o ddatgarboneiddio caffael, gyda phwyslais ar y gadwyn gyflenwi ar gyfer dyfeisiau meddygol.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – y prif rwystrau yw'r costau ymlaen llaw o brynu offerynnau amldro ac o safbwynt logisteg rhwystrau yn ymwneud â sterileiddio.

### Potensial ymgysylltu

Rhywfaint o botensial – mae'r prosiect hwn yn ymgysylltu â phob maes sy'n defnyddio sbecwla plastig untro a dyfeisiau meddygol eraill yn y sefydliad.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n rhannol – mae'r prosiect hwn yn cyflawni o ran lleihau'r effeithiau amgylcheddol, â mân welliant i

ganlyniadau cleifion neu leihad i effeithiau ariannol a chymdeithasol.

## 8. Astudiaeth achos: Rhwydwaith Iechyd Gwyrdd Cymru – BIPCAF

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Â lefelau amlwg o orflinder ymhlith y gweithlu, amseroedd aros maith i gleifion, baich ariannol a'r ddarpariaeth o ofal iechyd yn cyfrannu'n negyddol at yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol, mae model presennol y GIG yn anghynaliadwy. Nod Iechyd Gwyrdd Cymru yw cynorthwyo'r broses o drawsnewid gofal iechyd o safbwynt iechyd y blaned.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Trwy gaffael gwybodaeth ymhlyg hanfodol trwy ddatblygu rhwydweithiau cynhenid o fewn y GIG, gan gysylltu â rhwydweithiau a sefydliadau anghynhenid, ein nod yw ymwreiddio'r cysyniad o werth cynaliadwy mewn busnes fel arfer, gan gyfrannu'n fawr at dargedau datgarboneiddio GIG Cymru.

Y canlyniad targed yw creu rhwydwaith ambarél i alluogi eiriolaeth a chamau gweithredu ar ddatgarboneiddio, i drawsnewid y ddarpariaeth o ofal iechyd i fod yn ddoeth o ran yr hinsawdd.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Fe wnaethom lwyddo i ddatblygu rhwydweithiau ymhellach, i ddatblygu gwefan newydd a bydd strategaeth gyfathrebu/ymgysylltu Iechyd Gwyrdd Cymru yn cychwyn yn fuan. Rydym wedi gallu casglu amrywiaeth eang o brosiectau datgarboneiddio a thrawsnewid i'w harddangos ac i ddod â thimau amlddisgyblaeth ynghyd trwy ffurfio grwpiau gwyrdd byrddau iechyd.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Mae Rhwydwaith Iechyd Gwyrdd Cymru wedi gallu dangos arweinyddiaeth ym maes gofal iechyd cynaliadwy.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Roedd yr amserlen o 6 mis yn fyr iawn ac yn cynnwys staff cyflogedig cyfyngedig. Mae llawer o waith yn dal i gael ei gyflawni ar sail ewyllys da yn unig ac mae hyn yn anghynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Yn benodol, mae'r heriau yn cynnwys dim staff gweinyddol, sy'n golygu bod staff clinigol uwch yn cwblhau swyddogaethau gweinyddol, ac nid dyna'r defnydd gorau o'u sgiliau.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Angerdd pur, penderfyniad a gwerthoedd craidd y staff a oedd yn cyflawni'r swyddogaethau newydd hyn. Diolch o galon iddyn nhw ac i gefnogaeth tîm strategaeth BIPCAF a Sefydliad Calon y Ddraig.

## Gwerthusiad prosiect – Rhwydwaith Iechyd Gwyrdd Cymru - BIPCAF

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd effaith carbon.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Effaith uchel – mae cyrhaeddiad Iechyd Gwyrdd Cymru yn enfawr. O'i reoli yn briodol, gallai Iechyd Gwyrdd Cymru sicrhau canlyniadau rhagorol.

### Rhyddhad arian parod

Dim rhyddhad – mae gwaith Iechyd Gwyrdd Cymru wedi canolbwyntio ar symudiad cymdeithasol a newid diwylliant. Bydd arbedion sylweddol yn dod yn sgil newid diwylliant mawr.

### Rhyddhad capasiti

Rhyddhad cyfyngedig – mae Iechyd Gwyrdd Cymru yn brosiect newydd sbon â chwmpas enfawr i dyfu ymdrechion datgarboneiddio ond hefyd cyfle enfawr i rymuso a thyfu ymdrechion addasu.

### Osgoi costau

Dim osgoi - byddai hyn yn dod yn sgil tyfu prosiectau. Mae prosiect Iechyd Gwyrdd Cymru yn rhannu astudiaethau achos a gwybodaeth, gan arbed amser, ymdrech ac arian i bob bwrdd iechyd wrth weithredu nodau tebyg.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – yn cyd-fynd â strategaeth ddatgarboneiddio'r GIG a nodau byrddau'r rhaglen iechyd, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, swyddfa archwilio Cymru a chynllun gweithredu ar gynaliadwyedd BIPCAF.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – mae'r prif rwystr yn ariannol. Pe bai'r cyllid gan y tîm, yna maent yn teimlo y byddai Iechyd Gwyrdd Cymru yn rym a fyddai'n sbarduno gofal iechyd cynaliadwy yn genedlaethol ac fel model y gellid ei ailadrodd yn rhyngwladol.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – mae Iechyd Gwyrdd Cymru yn brosiect newydd sbon â chwmpas enfawr i ledaenu a thyfu ymdrechion datgarboneiddio ac addasu.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n gryf.

## 9. Teitl y prosiect a'r sefydliad: Datblygu Arloesedd Cynaliadwy - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Datblygu cyfres o brosiectau i gynyddu cynaliadwyedd trwy 6 Ysgolor Gwyrdd.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Roedd gan y 6 phrosiect amcanion a chanlyniadau ar wahân. Roedd y prosiectau yn canolbwyntio ar: ddefnydd o anadlyddion; gwastraff bwyd; ailgylchu cardfwrdd; cynllunio addasiadau; teithio llesol a chlinig biopsi mewn swyddfa.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Llwyddiannus – darparwyd amrywiaeth eang o brosiectau, a bydd yr hyn a ddysgwyd yn hysbysu gwaith datgarboneiddio yn y dyfodol.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Mae'r rhaglen hon wedi goruchwylio datblygiad chwe ysgolor mewn amrywiaeth eang o leoliadau gofal iechyd. Er nad yw'r rhan fwyaf o ysgolorion wedi cwblhau'r cylch PDSA llaw o hyd wrth i'r rhaglen ddod i ben, ceir ymrwymiad ymhlith yr unigolion i wneud hynny ac i rannu eu dysgu. Ystyriwyd bod amser wedi'i neilltuo yn gyfrannwr allweddol at gynnydd ysgolorion.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Amserlenni i ddarparu'r prosiectau.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Mae i ba raddau yr oeddent yn gallu rhoi eu holl ddysgu ar waith a chyflawni cylch PDSA llawn wedi bod yn her yn ystod y 6 mis, ond mae gan bob ysgolor gynlluniau i ddatblygu'r gwaith ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ar draws rhai prosiectau, ond nid pob un.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ar draws rhai prosiectau, ond nid pob un.

### Rhyddhad arian parod

Ar draws rhai prosiectau, ond nid pob un.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol.

### Osgoi costau

Ar draws rhai prosiectau, ond nid pob un.

### Aliniad strategol

Aliniad rhannol - mae anadlyddion, addysg a rheoli gwastraff i gyd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau datgarboneiddio BIPCTM.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – gwastraff cardfwrdd; bydd rhwystrau yn cynnwys y contractau presennol sydd ar waith gyda chwmnïau gwaredu.

Teithio llesol – ymgysylltiad â phartneriaid aml-asiantaeth yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bwyd – addysg staff.

Anadlyddion – capasiti staff / addysg staff.

Y glust, y trwyn a'r gwddf – rheoli newid.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n gryf.

## 10. Astudiaeth achos: Datblygu Adnoddau Addysgol - BIPCTM

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Nod y prosiect hwn yw codi ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd ar draws GIG Cymru a rhoi dealltwriaeth i'r staff o'r rhan yr ydym i gyd yn ei chwarae i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Yn y pen draw, y canlyniad targed yw i'r prosiect hwn ddarparu tystiolaeth o ymwybyddiaeth uwch o'r agenda newid hinsawdd/ datgarboneiddio ar draws GIG Cymru. I wneud hyn, ein nod yw i gyfran fawr o staff GIG Cymru gwblhau'r modiwl trwy ESR.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

O ran yr adnodd addysgol ei hun, mae adborth anecdotaidd gan y gweithgor a Byrddau Iechyd/ ymddiriedolaethau eraill yn dangos bod y modiwl yn cyflawni'n effeithiol yr amcan o ddarparu dull difyr i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd/ datgarboneiddio.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Mae'r prosiect hwn wedi dangos dull ar gyfer datblygu deunyddiau addysgol mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid a sefydliadau GIG eraill i greu cynnyrch terfynol sydd nid yn unig yn cyd-fynd â pholisïau ehangach ac arferion gorau, ond hefyd â pholisïau penodol mewn sefydliadau eraill.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Daeth yr her fwyaf yn dilyn dylunio a lansio'r modiwl. Ar draws GIG Cymru, mae staff o dan bwysau i gwblhau ei Dysgu Craidd (hyfforddiant statudol/ gorfodol) ac mae llawer o'r Byrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd, os nad pob un ohonynt, yn cael trafferth yn cyrraedd eu targedau. Gan fod y modiwl hwn, yn briodol, y tu allan i'r pynciau craidd y mae'n rhaid i staff eu cwblhau yn gyfreithiol, rydym yn dibynnu ar staff i fod yn rhagweithiol ac i fod â diddordeb yn y pwnc er mwyn cwblhau'r dysgu.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Y ffactor pwysicaf fu gallu arweinydd y prosiect i ddefnyddio'r prosiect hwn fel modd o greu dull unedig ac arloesol o addysgu system gyfan am yr agenda newid hinsawdd/ datgarboneiddio.

## Gwerthusiad prosiect – Datblygu Adnoddau Addysgol - BIPCTM

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd – gan mai adnodd addysgol yw hwn, mae'n amhosibl cyfrifo'r effaith carbon uniongyrchol.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd – yn unol â'r sylwadau uchod ac oherwydd natur y prosiect hwn, nid yw'n bosibl cyfrifo hyn.

### Rhyddhad arian parod

Amherthnasol – yn unol â'r sylwadau uchod ac oherwydd natur y prosiect hwn, nid yw'n bosibl cyfrifo hyn.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol – yn unol â'r sylwadau uchod ac oherwydd natur y prosiect hwn, nid yw'n bosibl cyfrifo hyn.

### Osgoi costau

Amherthnasol – yn unol â'r sylwadau uchod ac oherwydd natur y prosiect hwn, nid yw'n bosibl cyfrifo hyn.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – bwriedir i'r modiwl gyd-fynd yn uniongyrchol â strategaeth/polisi lleol a chenedlaethol.

### Gallu i dyfu

Gallu mawr i dyfu – mae'r prosiect hwn yn cael ei dyfu ar draws GIG Cymru gyda'r ddarpariaeth o fodiwlau wedi'u hailadrodd yn benodol ar gyfer pob Bwrdd/ Ymddiriedolaeth Iechyd. Gyda rhai diwygiadau, gellid hefyd tyfu hwn allan i'r system ehangach.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – fel adnodd addysgol, mae'r prosiect hwn wedi'i ddylunio'n benodol i gynnwys holl staff y GIG yn yr agenda datgarboneiddio/ newid hinsawdd.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Amherthnasol - oherwydd natur y prosiect hwn, nid yw'n bosibl cyfrifo hyn yn gywir, er y gallai'r prosiect gael effaith anuniongyrchol ar ganlyniadau cleifion yn y tymor hwy.

## 11. Astudiaeth achos: 'Cyfadran Gofal Iechyd Cynaliadwy' – Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Cymryd camau cynnar i gefnogi datblygiad tymor hwy Cyfadran Gofal Iechyd Cynaliadwy yng Nghymru. Diben y gyfadran yw ymwreiddio'r wybodaeth a'r ymchwil ddatgarboneiddio ddiweddaraf mewn arweinyddiaeth, arfer, hyfforddiant ac addysg gofal iechyd, gan gefnogi dull Gofal Iechyd Cynaliadwy i Gymru.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Amcanion allweddol y Gyfadran Gofal Iechyd Cynaliadwy yw:

- Sefydlu cyfadran o hyrwyddwyr cynaliadwyedd (asiantau newid) a all weithio ar draws Cymru a phroffesiynau ac ar ran AaGIC i rannu arferion gorau, i gynorthwyo addysgu a chodi ymwybyddiaeth lleol a chasglu astudiaethau achos o leoliadau gweithredu a lleoliadau hyfforddiant clinigol.
- Datblygu rhaglenni a phecynnau addysg i hyrwyddo a thynnu sylw at arferion gorau ar gyfer gofal iechyd cynaliadwy ledled Cymru.
- Datblygu rhwydwaith ehangach o hyrwyddwyr cynaliadwyedd ledled Cymru i rannu arferion gorau ac enghreifftiau astudiaeth achos o fewn y rhanbarth.
- Ymwreiddio arferion cynaliadwy ymhlith myfyrwyr, hyfforddeion a hyfforddwyr a sefydlu Cymru fel arweinydd yn y ddarpariaeth o ofal iechyd cynaliadwy.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Cyflawnwyd rhai amcanion, mae eraill yn parhau i gael eu datblygu. Darparodd arweinydd y prosiect fwy o fanylion yn yr ymateb i'r holiadur.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Roedd nifer y datganiadau o ddiddordeb yn fwy na'r disgwyl; y targed oedd hyfforddi 35 o hyrwyddwyr, ond hyd yma (24/5/2023), mae AaGIC wedi derbyn 166 o ddatganiadau o ddiddordeb ac wedi hyfforddi 71 o hyrwyddwyr.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Bu cwmpasu cychwynnol ar gyfer Cyfadran Gofal Iechyd Cynaliadwy yng Nghymru yn annigonol i AaGIC benderfynu ar fodel darparu priodol ac mae'r gwaith ar ei ail gam erbyn hyn, ac mae gwaith pellach yn cael ei wneud gan Gymrawd Cynaliadwyedd o fis Ebrill 2023 (0.2 cyfwerth ag amser llawn am ddwy flynedd).

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Er bod presenoldeb yn wirfoddol, yr adborth anecdotaidd yw bod cynnwys y cwrs yn hynod rymus ac, eto'n anecdotaidd, rydym yn deall bod y rhai sydd wedi bod yn bresennol wedi bod yn mynegi hyn mewn adborth i gyflogwyr a rhwydweithiau.

## Gwerthusiad prosiect – 'Cyfadran Gofal Iechyd Cynaliadwy' – AaGIC

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd - diben y prosiect yw darparu addysg ddoeth o ran yr hinsawdd i staff ar draws GIG Cymru. Bwriedir iddo ysgogi staff i newid eu hymddygiad a chymryd camau i ddarparu gofal iechyd mewn ffordd gynaliadwy.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd.

### Rhyddhad arian parod

Amherthnasol – newid ymddygiad oedd y pwyslais.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol – gellid rhyddhau capasiti o ganlyniad i arloesi yn y dyfodol oherwydd gwybodaeth a dealltwriaeth gynyddol o'r materion wedi'u darparu trwy addysg.

### Osgoi costau

Amherthnasol – yn yr un ffordd â chapasiti.

### Aliniad strategol

Aliniad rhannol – mae'r prosiect yn cyd-fynd yn rhannol â Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (Menter 39). Nid yw natur y cynnig wedi ei benderfynu'n llawn ar draws prosiectau sy'n canolbwyntio ar lythrennedd carbon eto.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – mae gan y prosiect y potensial i gael ei ehangu neu ai ailadrodd ar raddfa fawr. Y prif rwystr sy'n gysylltiedig â sefydlu rhwydwaith o hyfforddwyr yw bod ag amser ar gael mewn swyddi presennol i ddarparu'r hyfforddiant yn rheolaidd.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – gwnaed y cwrs 'Cyflwyniad i Ofal Iechyd Cynaliadwy' ar gael i'r holl staff yn GIG Cymru ac fe'i hyrwyddwyd gan AaGIC yn fewnol.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Er nad yw'r prosiect ei hun yn darparu gofal iechyd cynaliadwy yn uniongyrchol, a dyna pam ddewiswyd amherthnasol, mae cynnwys yr hyfforddiant yn

canolbwyntio ar ddarpariaeth ymarferol o ofal iechyd cynaliadwy.

## 12. Astudiaeth achos: Cymrodoriaeth Gynaliadwyedd mewn Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth y Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd)

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Ymwreiddio cynaliadwyedd a datgarboneiddio yn y broses Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth i sicrhau bod yr ystyriaeth o sut y defnyddir adnoddau yn cynnwys yr effaith amgylcheddol yn ogystal â'r effaith gymdeithasol ac ariannol.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Gwerthuso newid gwasanaeth arfaethedig trwy raglen addysgol gan ddefnyddio cynaliadwyedd a datgarboneiddio fel elfen allweddol. Ystyried datblygiad pecyn cymorth gwerthuso i alluogi'r math hwn o werthuso i gael ei wneud mwy fel mater o drefn.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Wrth werthuso'r prosiectau trwy Raglen Ymarferwyr Uwch Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth, mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus, fodd bynnag mae gwaith i'w wneud o hyd i ddatblygu pecynnau cymorth gwerthuso cyson i'w defnyddio o bosibl.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Gweithrediad y dull hwn mewn prosiectau lluosog mewn lleoliad addysgol.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Yr amser sydd ei angen i'r Cymrawd Cynaliadwyedd gyflawni'r cyrsiau hyfforddi gofynnol ochr yn ochr ag ymrwymiadau gwaith eraill.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Gweithio ar y cyd â'r Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy, y Tîm Gwerth mewn Iechyd Cenedlaethol a'r Tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth lleol.

## Gwerthusiad prosiect – Cymrodoriaeth Gynaliadwyedd mewn Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth y Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy – BIPHDd

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd – cynlluniwyd y gwaith i ymwreiddio mesur ac ystyriaeth cynaliadwy ar bob cam o amrywiaeth o brosiectau a mentrau Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Effaith ganolig – mae dulliau yn cael eu defnyddio mewn llawer o feysydd gwasanaeth blaenoriaeth.

### Rhyddhad arian parod

Amherthnasol – wrth ystyried newid gwasanaethau, ystyrir arbedion sy'n rhyddhau arian parod a phethau nad ydynt yn gysylltiedig ag arian parod, ynghyd â chynaliadwyedd a chanlyniadau sy'n bwysig i gleifion.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol – yr un fath â'r uchod.

### Osgoi costau

Amherthnasol – yr un fath â'r uchod.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – yn berthnasol yn uniongyrchol i Strategaeth Ddatgarboneiddio GIG Cymru a Chynllun Cyflenwi Datgarboneiddio Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – efallai y bydd rhywfaint o densiwn yn bodoli rhwng cynaliadwyedd gwasanaethau a'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n rhannol – er y deallir y waelodlin driphlyg mewn egwyddor, gallai'r pwyslais ar adnoddau (ariannol a dynol) a ddefnyddir wrth ddarparu canlyniadau i gleifion a phoblogaethau ddal i daflu effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol i'r cysgod.

## 13. Astudiaeth achos: Gwella a Gwarchod Bioamrywiaeth – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

I gefnogi a chyflawni yn erbyn ymrwymiadau cydnerthedd bioamrywiaeth, mae BIAP wedi cyflogi ymgynghorydd arbenigol i arolygu, gwerthuso ac adrodd ar welliannau a gwarchod bioamrywiaeth ar draws nifer o safleoedd ysbyty.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Darparu cyngor arbenigol gwrthrychol ar gyfer y gyfatebiaeth orau o wella bioamrywiaeth ac amgylchedd gwyrdd i gleifion a staff tra'n cynnal cynefinoedd diogel ar gyfer bywyd gwyllt a pheidio â chael effaith negyddol ar ddyletswyddau gweithredu mewn amgylchedd gofal iechyd.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Mae'r prosiect wedi bodloni'r briff ar gyfer y gwaith a gomisiynwyd yn llawn.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Lefel y manylder a sicrhawyd ar gam asesu a gwerthuso'r prosiect a ddangoswyd yn dda iawn mewn cyfres o ddarluniau sy'n cyflwyno'r meysydd gorau ar gyfer gwella a gwarchod.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Cael cadarnhad caffael a llywodraethu ar gyfer y prosiect.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Cymhwysedd a galluoedd a gweithwyr technegol a oedd ar gael i'r contractwr a ddewiswyd, Mott MacDonald, fanteisio arnynt.

## Gwerthusiad prosiect - Gwella a Gwarchod Bioamrywiaeth – BIAP

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Effaith isel/dibwys.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Effaith ganolig - bydd y cynllun yn cyflawni Deddf yr Amgylchedd (Cymru) S6, yn diogelu ac yn gwella lefelau bioamrywiaeth, a fydd yn cael y canlyniad anuniongyrchol o ran cynnal a gwella lefelau dal carbon ac ecoleg.

### Rhyddhad arian parod

Dim rhyddhad – bwriadwyd i'r prosiect arbed bioamrywiaeth ac nid oedd ganddo unrhyw dargedau rhyddhau arian parod.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol – ddim yn gysylltiedig â chwmpas y prosiect.

### Osgoi costau

Osgoi uchel – mae gwaith rhagfynegi ynghylch bioamrywiaeth yn debygol o leihau'r angen am waith adweithiol.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – mae'r prosiect yn alinio gyda chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth BIAP, Deddf Dyletswydd yr Amgylchedd (Cymru) S6, cynlluniau a gyhoeddwyd yn Adroddiad Bioamrywiaeth 3 blynedd y Bwrdd Iechyd, a Blaenoriaeth Strategol 20 y Cynllun Tymor Canolig Integredig i 'Weithredu ymrwymiadau uchelgeisiol i Leihau Carbon, Gwella Bioamrywiaeth a Lles Amgylcheddol'

### Gallu i dyfu

Gallu mawr i dyfu.

### Potensial ymgysylltu

Potensial ymgysylltu uchel.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni gwerth cynaliadwy rhannol – ceir dealltwriaeth dda o fanteision yr amgylchedd i iechyd a gwellhad cleifion. Y

prosiect hwn yw'r prif ddarn galluogi i gefnogi awydd y Bwrdd Iechyd i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ar draws ei ystad ac arwain ymlaen at sesiynau ymgysylltu â'r gymuned, staff a chleifion mewn mannau gwyrdd.

## 14. Astudiaeth achos: Rhaglen Llythrennedd Carbon – BIAP

**Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:**

Ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd a gweithredu gan aelodau staff ehangach.

**Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:**

Darparu hyfforddiant Llythrennedd Carbon i'r garfan nesaf o staff ac arwain at greu cyfleoedd Hyfforddi'r Hyfforddwr i staff allweddol sy'n dymuno ymgysylltu a bwrw ymlaen â llythrennedd carbon ar draws eu cyfarwyddiaeth.

**Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:**

Bydd y pecyn cymorth sy'n cael ei greu drwy'r prosiect hwn yn galluogi darparwyr gofal iechyd eraill yng Nghymru i ddefnyddio'r deunydd hyfforddiant wedi'i deilwra a ddarperir trwy Cynnal Cymru. Canmolwyd y deunydd a'r ddarpariaeth hyfforddiant gan ymgeiswyr am eu natur addysgiadol a'u data penodol i Gymru.

Gan fod yr arian refeniw ar gael, mae wedi gallu darparu hyfforddiant llythrennedd carbon mwy perthnasol i'n hail garfan o staff.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:**

Creu'r Pecyn Cymorth Gofal Iechyd GIG Cymru y cyfeiriwyd ato eisoes.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:**

Nodi a chael ymrwymiad i fynychu'r hyfforddiant gan staff.

**Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:**

Ymgysylltiad ac ysgogiad llawn gan y (cyn) Gyfarwyddwr Amgylchedd i ymgysylltu â thimau gwasanaeth ac ymgyfuno'r unigolion â'r hyfforddiant.

## Gwerthusiad prosiect - Rhaglen Llythrennedd Carbon - BIAP

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd effaith carbon – nid yw'r hyfforddiant yn darparu datgarboneiddio y gellir ei fesur tan i gynlluniau gael eu rhoi ar waith.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd effaith carbon.

### Rhyddhad arian parod

Dim rhyddhad – nid oedd yn amcan ar gyfer y prosiect hwn.

### Rhyddhad capasiti

Dim rhyddhad – nid oedd yn amcan ar gyfer y prosiect hwn.

### Osgoi costau

Osgoi cyfyngedig – galluogodd y garfan nesaf o staff i dderbyn hyfforddiant llythrennedd carbon heb effaith ariannol ar y bwrdd iechyd.

### Aliniad strategol

Aliniad rhannol – mentrau 1, 2 a 3 Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – yn wynebu rhwystrau o oblygiadau refeniw o gynnal yr hyfforddiant gyda Sefydliadau Llythrennedd Carbon, yn ogystal ag o gostau cofrestru ac ardystio. Yn glinigol, mae wedi peri problemau o ran presenoldeb oherwydd prinderau staff.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – ceisiwyd a sicrhawyd cynrychiolwyr o gyfarwyddiaeth pob gwasanaeth.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n rhannol – nid yw gallu cyffredinol i gyflawni wedi'i fesur eto tan fod cynlluniau gweithredu ar ddatgarboneiddio wedi'u datblygu yn dilyn yr hyfforddiant.

## 15. Astudiaeth achos: Ymgyrch Fferylliaeth Lleihau Carbon - BIAP

**Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:**

Lleihau'r defnydd o anadlyddion yr ydym yn gwybod bod ganddynt ôl troed carbon uchel a'u disodli nhw, lle bynnag y bo'n bosibl, gydag anadlyddion sydd ag effaith carbon llawer is.

Codi ymwybyddiaeth o effaith gwastraff fferyllol ar yr amgylchedd

**Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:**

Lleihau'r ôl troed carbon trwy ddefnyddio anadlyddion mwy ystyriol o'r amgylchedd a thrwy leihau gwastraff meddyginiaethau.

**Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:**

Tystiolaeth o leihad da i'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â'r gwaith anadlyddion. Nid oes unrhyw dystiolaeth o'r effaith y mae'r gwaith lleihau gwastraff wedi ei chael ar ôl troed carbon y prosiect gan fod y prosiect ddim ond ar y cam codi ymwybyddiaeth o hyd.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:**

Mynd i'r afael â'r mater hwn drwy'r prosiect anadlyddion.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:**

Cael dealltwriaeth o effaith y gwaith lleihau gwastraff.

**Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:**

Gweithio ar y cyd gyda'r tîm cyfathrebu ac ymgysylltu.

## Gwerthusiad prosiect – Ymgyrch Fferylliaeth Lleihau Carbon – BIAP

| Gwerthusiad prosiect |
| --- |
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal Iechyd Cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Mae cyfrifiadau yn dangos gostyngiad o 13.75% i'r ôl troed carbon dangosol. Yn gyffredinol, ni allwn gyfrifo lleihad i'r ôl troed carbon yn ymwneud â gwastraff meddyginiaethau ar hyn o bryd, gan mai ymgyrch ymwybyddiaeth fu hon.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Er bod rhai practisau wedi gwneud gwelliant sylweddol o ran lleihau eu defnydd o Anadlyddion Dos Mesuredig (MDIs) a defnydd cynyddol o Anadlyddion Powdr Sych (DPIs) ac Anadlyddion Tarth Ysgafn (SMIs), ceir lle sylweddol i wella o hyd.

### Rhyddhad arian parod

Dim rhyddhad – wedi annog y defnydd o anadlyddion mwy ystyriol o'r amgylchedd. Mae'r anadlyddion hyn yn tueddu i fod yn ddrytach nag MDIs ac felly mae'r prosiect wedi creu pwysau o ran costau.

### Rhyddhad capasiti

Dim rhyddhad – nid yw newid cleifion o MDIs i DPIs neu SMIs yn newid syml. Mae angen ymgynghoriadau sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol a all gymryd amser.

### Osgoi costau

Dim osgoi – os byddwn yn annog cleifion i archebu'r meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt yn unig, byddwn yn gweld costau yn cael eu hosgoi.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – mae'r prosiect yn cyd-fynd yn agos â Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

### Gallu i dyfu

Gallu mawr i dyfu – ceir gallu mawr i dyfu'r gwaith anadlol a'r gwaith lleihau gwastraff gyda chymorth adnoddau.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – mae Prosiectau Rheoli Meddyginiaethau wedi eu hadolygu'n gadarnhaol mewn cyfarfodydd datgarboneiddio.

**Gofal Iechyd Cynaliadwy**

Yn cyflawni'n gryf – nid yw gofal cleifion wedi'i beryglu mewn unrhyw ffordd gan y mentrau hyn a cheir effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd trwy leihau gwastraff.

## 16. Astudiaeth achos: Datblygu pecyn o adnoddau hyfforddiant ac adeiladu capasiti ar gynaliadwyedd, y newid yn yr hinsawdd ac iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:**

Datblygu capasiti a magu hyder ar draws y sefydliad i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

**Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:**

Amcan y prosiect yw addysgu staff i ddeall y cysylltiad rhwng eu swyddi a'r argyfyngau hinsawdd ac iechyd, nodi camau y gallant eu cymryd i leihau eu heffaith a hefyd i ddeall sut gallai'r newid yn yr hinsawdd effeithio ar eu swydd / maes gwasanaeth yn yr hirdymor.

**Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:**

Mae'r prosiect wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â nodau ac amcanion cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n ymrwymiad hirdymor ac yn bwyslais parhaus a bydd angen cymorth i gyrraedd nifer fwy sylweddol o gydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:**

Cafodd y sesiwn ddatblygu (a ddarparwyd gan y Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy) gyda'r Bwrdd a Swyddogion Gweithredol ei groesawu'n fawr, â llawer iawn o ddiddordeb, brwdfrydedd a rhannu syniadau. Roedd y strategaeth hirdymor hefyd yn cael ei hadolygu tua'r un adeg ac mae cymeradwyo'r newid yn yr hinsawdd fel blaenoriaeth strategol newydd yn gam cadarnhaol.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:**

Deall lefelau presennol o ddealltwriaeth i hysbysu'r hyn sydd ei angen, yn ogystal ag ymgysylltu yn ehangach na'r 'bobl arferol' sydd eisoes wedi ymrwymo i'r agenda.

**Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:**

Mae'n anodd iawn dewis un ffactor yn unig - roedd nifer o ffactorau pwysig a gyfrannodd at ei lwyddiant yn cynnwys:

- cefnogaeth a brwdfrydedd gan gydweithwyr (gan gynnwys arweinwyr uwch) i gefnogi a mynychu sesiynau
- roedd ymgysylltiad â chydweithwyr allanol a darparwyd hyfforddiant yn gadarnhaol iawn.

Mae arweinydd y prosiect yn teimlo bod y tîm wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y 9 mis diwethaf. Mae'r arweinydd yn awyddus i barhau gyda'r momentwm (er nad oes ganddo gyllid i'w gefnogi) a hefyd i barhau gwaith gyda phartneriaid allanol i gydgysylltu ei ymdrechion, i rannu dysgu / adnoddau ac i ddatblygu dull 'Unwaith i Gymru'.

## Gwerthusiad prosiect – Datblygu pecyn o adnoddau hyfforddiant ac adeiladu capasiti ar gynaliadwyedd, y newid yn yr hinsawdd ac iechyd – Iechyd Cyhoeddus Cymru

| Gwerthusiad prosiect |
| --- |
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd – nid yw hyfforddiant ac adeiladu capasiti yn cyd-fynd ag unrhyw un o'r themâu adrodd a nodwyd uchod ac nid oes ganddynt unrhyw ddata allyriadau penodol i gefnogi'r gweithgarwch.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd - mae'n anodd ei amcangyfrif ond bydd hyfforddi ac addysgu staff am yr argyfwng hinsawdd yn helpu pawb i wneud penderfyniadau mwy cytbwys.

### Rhyddhad arian parod

Dim rhyddhad.

### Rhyddhad capasiti

Rhyddhad cyfyngedig – roedd cyllid i alluogi arbenigwyr allanol i ddarparu hyfforddiant yn golygu nad oedd angen capasiti mewnol; fodd bynnag, roedd y capasiti a oedd yn angenrheidiol i gynllunio'r sesiynau hyn yn golygu ei fod fwy neu lai'n mantoli pethau.

### Osgoi costau

Dim osgoi.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – Menter #39 Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru ar Addysg Iechyd.

### Gallu i dyfu

Gallu mawr i dyfu – gellir gwneud adnoddau y mae'r tîm wedi eu datblygu ar gael i'w defnyddio i ddarparu sesiynau tebyg.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – bydd y tîm yn gweithio gyda staff Dysgu a Datblygu i archwilio cyfleoedd i wneud y cynnig newid hinsawdd yn fwy prif ffrwd ac nid yn annibynnol ar raglenni Dysgu a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r prosiect hefyd wedi ymgysylltu'n agos â phartneriaid allanol gan gynnwys AaGIC ac Iechyd Gwyrdd Cymru.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Amherthnasol.

## 17. Astudiaeth achos: Blwyddlyfr Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru – Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

'Blwyddlyfr' dwyieithog digidol ar gyfer 2022 yn dathlu llwyddiannau o Flwyddyn 1 Fframwaith a Chynllun Gwobrau Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru trwy gynnwys astudiaethau achos bywyd go iawn. Hwyluso rhannu i annog gweithredu mewn ymarfer.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Amcanion – Datblygu Blwyddlyfr digidol dwyieithog ac animeiddiad atodol yn ymwneud â Fframwaith a Chynllun Gwobrau Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru.

Canlyniadau – Dangos yr hyn y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei wneud i helpu'r system ehangach i alluogi gweithgarwch newid ymddygiad sy'n helpu i ymwreiddio'r agenda newid hinsawdd mewn practisau gofal sylfaenol. Annog practisau gofal sylfaenol i weithredu.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Cwbl lwyddiannus. Darparwyd yr adnodd yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan y mwyafrif llethol o amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Amrywiaeth eang o gamau gweithredu wedi'u cynnwys fel astudiaethau achos, o lawer o wahanol leoliadau gofal sylfaenol ar draws Cymru gyfan.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Rheoli amserlenni i gymryd fersiynau/diwygiadau lluosog o'r Blwyddlyfr i ystyriaeth.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Ymrwymiad gan y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos i ddarparu'r Blwyddlyfr a'r cyfoeth o wybodaeth yr oedd ei hangen, a gallu'r dylunydd a gomisiynwyd i drin yr wybodaeth hon i lunio dogfen ddifyr a hawdd ei darllen.

| Gwerthusiad prosiect |
| --- |
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd effaith carbon – maent yn bwriadu comisiynu darn o waith eleni / dechrau'r flwyddyn nesaf, yn dibynnu ar gyllid, ar yr arbedion carbon ar gyfer yr holl gamau gweithredu ac felly'r astudiaethau achos yn y blwyddlyfr.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd effaith carbon.

### Rhyddhad arian parod

Amherthnasol – cynlluniwyd y Blwyddlyfr ei hun i ddathlu llwyddiant practisau ac ysgogi eraill i gymryd rhan.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol – mae'r Blwyddlyfr yn cynnig awgrymiadau/cyngor i bractisau eraill sy'n dymuno cymryd camau ystyriol o'r amgylchedd.

### Osgoi costau

Osgoi cyfyngedig – gallai astudiaethau achos yn y blwyddlyfr helpu practisau newydd i osgoi gwneud yr un camgymeriadau.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – cymerwyd yr astudiaethau achos o flwyddyn 1 Cynllun Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru. Mae'r tîm hefyd wedi mapio'r camau gweithredu yn y fframwaith i bolisïau allweddol.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – angen cyllid i ailadrodd yr ymarfer, capasiti'r tîm, a'r gallu i ddod o hyd i fwy o astudiaethau achos o ofal sylfaenol.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – prif ddiben yr adnodd hwn oedd ymgysylltu â chontractwyr gofal sylfaenol ledled Cymru.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n rhannol – enghraifft o reolaeth uwch o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma trwy ymgynghoriadau clinigol i newid i anadlyddion powdr sych.

## 18. Astudiaeth achos: Lleihau Gwastraff/ Maes Gwasanaeth Microbioleg – Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Ymchwilio i ddewisiadau cynaliadwy addas yn hytrach na phlastig untro, eitemau gwastraff uchel a chyfarpar diogelu personol.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Nodi eitemau penodol y gellir eu newid pan fo'n bosibl, ynghyd a'u harbedion o ran allyriadau a chostau. Nodi deunyddiau na ellir eu newid a'u heffaith o ran allyriadau a chostau cylch oes.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Gweithiwyd gyda chyflenwyr presennol i nodi cyfleoedd ar gyfer deunyddiau mwy cynaliadwy ac i gasglu manylion am gynlluniau ar gyfer y dyfodol (mae hyn yn parhau).

Tynnwyd sylw at heriau cyfrifo allyriadau sy'n gysylltiedig â deunyddiau penodol yn gywir oherwydd y diffyg data cywir, dewisiadau trafnidiaeth, meintiau pecynnau ac ati.

Nododd yr astudiaeth hefyd y gallwn organolbwyntio ar y mân fanylion wrth i ni ganolbwyntio ar allyriadau, gan golli golwg ar y darlun ehangach o bosibl.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Datblygwyd taenlen Meistr Dabl y gall labordai ei defnyddio i gyfrifo gostyngiadau posibl i allyriadau o newid deunyddiau penodol a/neu newid y broses gaffael i hwyluso llai o ddeunydd pacio, trafnidiaeth gynaliadwy ac ati.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Cyfrifo allyriadau sy'n gysylltiedig â deunyddiau penodol yn gywir oherwydd y diffyg data cywir, dewisiadau trafnidiaeth, meintiau pecynnau ac ati a diffyg data sydd ar gael ar gaffael.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Ymgysylltiad a brwdfrydedd staff labordy a staff yn y maes Gwasanaeth Microbioleg.

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Effaith ganolig.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Effaith ganolig – cyfle i ymwreiddio argymhellion y prosiect ym mhob labordy yng Nghymru.

### Rhyddhad arian parod

Dim rhyddhad - nid dyma oedd nod cyffredinol y prosiect. Efallai y bydd arbedion cost yn gysylltiedig â’r argymhellion neu efallai y bydd goblygiadau cost.

### Rhyddhad capasiti

Dim rhyddhad – roedd y pwyslais ar leihau allyriadau a lleihau gwastraff, heb unrhyw effaith ar gapasiti.

### Osgoi costau

Dim osgoi – edrychodd y prosiect ar leihau allyriadau, ond daeth y tîm i’r casgliad nad oedd agweddau ar ddata caffael ar gael yn barod i gynnwys arbedion / effeithiau cost.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – mae’r prosiect hwn yn cyd-fynd â Chynllun Cyflenwi strategol Datgarboneiddio GIG Cymru a Chynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – canfu’r prosiect bod lleihau’r allyriadau o ddeunyddiau traul labordy untro yn bosibl yn gyffredinol. Ceir heriau/ rhwystrau y bydd labordai unigol yn eu hwynebu, y gellir eu goresgyn pan fo’n ymarferol.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – mae’r prosiect yn ymgysylltu â staff labordy i gychwyn, ond gellir rhannu’r canfyddiadau ar draws timau eraill mewn byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Cyflawniad cyfyngedig – effeithiau cysylltiedig ynghylch diogelu iechyd a llai o effaith ar y newid yn yr hinsawdd a materion cysylltiedig (lefelau llygredd is ac ati).

## 19. Astudiaeth achos: Teithio Cynaliadwy – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)

**Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:**

Gwella opsiynau teithio cynaliadwy i'r gweithlu a'r boblogaeth leol.

**Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:**

Gwella iechyd y boblogaeth a'r staff trwy annog trafnidiaeth/opsiynau teithio iach.

**Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:**

Nid yw'r gwerthusiad wedi'i gwblhau eto.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:**

Cysylltiadau cyhoeddus o ran dechrau annog teithio cynaliadwy.

**Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:**

Y consensws ym marn tîm y prosiect. Llawer o wahanol syniadau y mae angen dod i gasgliad sy'n dderbyniol i bawb yn eu cylch.

**Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:**

Ymroddiad a'r parodrwydd i wneud gwahaniaeth.

## Gwerthusiad prosiect – Teithio Cynaliadwy – BIPBA

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd – nid yw’r gwerthusiad wedi’i gwblhau eto.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd – nid yw’r gwerthusiad wedi’i gwblhau eto.

### Rhyddhad arian parod

Dim rhyddhad – diben y prosiect oedd annog teithio cynaliadwy.

### Rhyddhad capasiti

Dim rhyddhad – nid yw’r gwerthusiad wedi’i gwblhau eto.

### Osgoi costau

Dim osgoi – nid yw’r gwerthusiad wedi’i gwblhau eto.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – mae’r prosiect hwn yn rhan o’r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio teithio/trafnidiaeth.

### Gallu i dyfu

Gallu mawr i dyfu – cafwyd dim ond cefnogaeth i’r prosiect ac mae’n hawdd ei drosglwyddo.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – gallai’r prosiect hwn fod o fudd i’r holl staff a chleifion ac unrhyw bobl eraill sy’n mynd heibio safleoedd ysbyty neu’n eu defnyddio.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni’n gryf – nid yw’r gwerthusiad wedi’i gwblhau eto ond gellir rhagweld manteision darparu’r prosiect hwn.

## 20. Astudiaeth achos: Labordai Gwyrdd - BIPBA

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Gwella arferion labordy o ran gwaredu gwastraff, defnyddio offer a rheoli cemegau er mwyn gwella effeithlonrwydd labordai a lleihau allyriadau carbon.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Caffael a chwblhau dwy raglen ardystio labordai gwyrdd - My Green Lab a'r Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd Labordai (LEAF).

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Cwblhaodd tîm y prosiect y meini prawf ardystio lefel efydd yn llwyddiannus ar gyfer prosiect LEAF. Roedd hyn yn cynnwys adolygu arferion presennol yn feirniadol yn erbyn y meini prawf a rhoi newidiadau ar waith, er enghraifft, sefydlu Grŵp Cynaliadwyedd Meddyginiaeth Labordy. Cwblhaodd tîm y prosiect weithgaredd tîm yn gysylltiedig â chynaliadwyedd a llwyddodd i wella mynediad at finiau ailgylchu. Mae'r prosiect My Green Lab yn parhau, ond hyd yma, mae staff labordy ar draws 3 safle ysbyty wedi cyfrannu at arolwg 45 munud ar arferion labordy presennol ac rydym wedi derbyn rhestr o gamau i'w cymryd cyn ailasesu ymhen 6-9 mis.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Fe wnaethom weithio fel tîm i gwblhau camau gweithredu ar gyfer ardystiad lefel efydd LEAF, er enghraifft, cyflwynwyd cynaliadwyedd gennym i'r rhestr wirio sefydlu ar gyfer aelodau staff newydd ac fe wnaethom ddiweddaru arwyddion ar finiau ailgylchu.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Roedd yn anodd cyrraedd cyfradd ymateb o 50% ar gyfer yr arolwg My Green Lab ar arferion labordy presennol. Roedd hyn oherwydd bod nifer gyfyngedig o staff ar gael a phwysau a oedd yn cystadlu. Roedd yr arolwg ei hun hefyd yn anodd ei gwblhau o ran yr amser a oedd ei angen a chymhlethdod y cwestiynau.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Ni fyddem wedi cyrraedd y gyfradd ymateb ofynnol ar gyfer arolwg My Green Lab pe na bai wedi bod am waith tîm a chefnogaeth gan y rheolwyr. Rydym yn adran brysur â dros 100 o aelodau staff ar draws 3 safle ysbyty ac fe wnaeth anogaeth gan uwch reolwyr helpu i ymgysylltu â mwy o aelodau staff.

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd – mae'n anodd cyfrifo union effaith carbon y prosiect hwn gan ei fod yn cynnwys gwneud llawer o newidiadau ar raddfa fach.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd – mae'n anodd cyfrifo union effaith carbon y prosiect hwn gan ei fod yn cynnwys gwneud llawer o newidiadau ar raddfa fach.

### Rhyddhad arian parod

Rhyddhad cyfyngedig – roedd rhaglen ardystio LEAF am ddim, ac fe wnaeth rhaglen My Green Lab gostio cyfanswm o $2,250, y derbyniodd y tîm grant ar ei chyfer.

### Rhyddhad capasiti

Rhyddhad cyfyngedig – ni ryddhawyd unrhyw gapasiti ychwanegol.

### Osgoi costau

Dim osgoi - derbyniodd y tîm grant i dalu'r gost o ymuno â phrosiect My Green Lab ac ni ellid osgoi'r gost hon.

### Aliniad strategol

Aliniad rhannol – menter rheoli carbon 2, mater agwedd at ofal iechyd (addysg) 39.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu - mae'r ddwy raglen ardystio labordai gwyrdd (My Green Lab a LEAF) yn cynnig mentrau lefel arian a lefel aur, a allai, o'u gweithredu, arwain at welliant sylweddol i gynaliadwyedd labordai. Fodd bynnag, mae staff cyfyngedig yn creu her.

### Potensial ymgysylltu

Potensial i ymgysylltu â chyflenwyr labordai a labordai clinigol eraill.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni’n rhannol – yn ystod y prosiectau, fe wnaeth y tîm gymryd rhan mewn trafodaethau gyda chlinigwyr ar leihau profion gwaed diangen i gleifion.

## 21. Astudiaeth achos: Cystadleuaeth Tîm Gwyrdd – BIPBA/BIPHDd

### Y broblem neu’r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Cynorthwyo staff i gyflwyno mentrau a all fynd i’r afael â gostyngiadau i allyriadau, gan ystyried effeithiau eang ar ganlyniadau cymdeithasol, ariannol a chlinigol.

### Yr amcan a’r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

1. Recriwtio chwe thîm ym mhob Bwrdd Iechyd,
    - Pob tîm yn cwblhau prosiect SusQI, â 6 astudiaeth achos wedi’u hysgrifennu fesul BIP.
    - Pob astudiaeth achos yn dangos arbedion carbon, ariannol a/neu, amser staff.
2. Un digwyddiad arddangos ag un wobr fesul BIP.
3. Ymwreiddio SusQI mewn BIPau.
4. Tyfu prosiectau llwyddiannus.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a’i dargedau:

Llwyddiannus iawn, cwblhawyd pob un o’r chwe phrosiect o fewn amserlen y gystadleuaeth. Roedd dros 100 o bobl yn bresennol yn yr Arddangosiad a chafwyd cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Ymgysylltu a grymuso staff yn ogystal â chael cyfle i ddiolch i’r timau yn uniongyrchol yn ystod digwyddiad arddangos a gwobrwyo Tîm Gwyrdd ar 3 Chwefror 2023.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

- Hyd y gystadleuaeth: Fe wnaeth hyd 10 wythnos y prosiect gyfyngu uchelgais rhai timau gan eu bod eisiau canlyniad o fewn y cyfnod amser hwnnw.
- Capasiti’r prosiect: Mae hyn yn ddibynnol ar staff yn meddu ar amser i gyflawni gwaith ychwanegol.
- Gwasgariad a maint: Mae rhannu prosiectau yn y lleoedd iawn gyda’r bobl iawn yn anodd. Anogwyd timau i rannu ond ceir problemau ynghylch capasiti i wneud hyn.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Dod o hyd i staff angerddol – roedd un ardal i lawr i 50% o’u staff ac fe wnaethant dal lwyddo i gyflawni. Roedd cymorth ar gael pan roedd ei angen arnynt drwy’r Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy.

## Gwerthusiad prosiect – Cystadleuaeth Tîm Gwyrdd – BIPBA/BIPHDd

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Effaith ganolig.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Effaith ganolig – potensial enfawr i ailadrodd, nid yn unig y prosiectau ond y model.

### Rhyddhad arian parod

Rhyddhad uchel - £24,600 oedd cost y Gystadleuaeth Tîm Gwyrdd. Amcangyfrifir mai £33,794.65 oedd yr arbedion o'r prosiect.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol.

### Osgoi costau

Osgoi cyfyngedig – £33,794.65 oedd y cyfanswm.
Mae adroddiadau ar gael o bob prosiect gan:
hayley.beharrell@wales.nhs.uk

### Aliniad strategol

Aliniad agos – cefnogodd y prosiect strategaeth ddatgarboneiddio'r Bwrdd Iechyd trwy alluogi staff i wneud newidiadau yn eu lleoliadau eu hunain, yn ogystal â bod yn arloesol.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – mae'r rhwystrau allweddol yn cynnwys ymwreiddio mewn QI, hirhoedledd, a hyfforddiant a chymorth ôl droedio carbon.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – gellir ymgysylltu a chynorthwyo staff i wneud newidiadau gwirioneddol yn eu hardal. Cefnogodd hyn waith ehangach gan Grŵp Gwyrdd Bae Abertawe.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n gryf – manteision amrywiol ar draws y prosiectau niferus a ddarparwyd yn y gystadleuaeth.

## 22. Astudiaeth achos: Ailgylchu Anadlyddion – Prosiect Peilot y Cymoedd Uchaf - BIPBA

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Ailgylchu anadlyddion mewn fferyllfeydd cymunedol gyda'r nod o'i gyflwyno ar draws yr holl glystyrau yn y BI os yw'n llwyddiannus. Mae hyn yn rhan o Gynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio BIPBA gyda'r nod o ailgylchu 80% o'r holl anadlyddion a roddir ar bresgripsiwn erbyn 2025.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Sicrhau ein bod yn annog gwarediad priodol o anadlyddion drwy'r cynllun ailgylchu wedi'i alinio â Chynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio BIPBA o ailgylchu 80% o'r holl anadlyddion a roddir ar bresgripsiwn erbyn 2025.

Hefyd annog newid ymddygiad gan sicrhau bod cleifion bob amser yn dychwelyd anadlyddion i fferyllfeydd i'w gwaredu yn briodol.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Mae'r prosiect yn parhau.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Mae'r prosiect yn parhau; fodd bynnag, mae wedi bod yn galonogol gweld nifer gadarnhaol yn manteisio arno ac ymgysylltiad cleifion.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Mae'r prosiect yn parhau.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Mae'r prosiect yn parhau.

## Gwerthusiad prosiect – Ailgylchu Anadlyddion – Prosiect Peilot y Cymoedd Uchaf - BIPBA

| Gwerthusiad prosiect |
|---|
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd effaith carbon – yn disgwyl am wybodaeth gan Grundon Waste Management i asesu hyn.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd effaith carbon – yn disgwyl am wybodaeth gan Grundon Waste Management i asesu hyn.

### Rhyddhad arian parod

Dim rhyddhad – roedd y cyllid ar gyfer gwasanaethau ailgylchu na ellid fod wedi'u hariannu drwy'r bwrdd iechyd oherwydd diffyg cyfleoedd ariannu.

### Rhyddhad capasiti

Dim rhyddhad – canolbwyntiodd y prosiect ar newidiadau ymddygiad a oedd yn golygu y bu'n rhaid i aelodau staff addysgu cleifion i sicrhau bod anadlyddion yn cael eu dychwelyd.

### Osgoi costau

Dim osgoi.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru a Chynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio BIPBA i ailgylchu 80% o anadlyddion erbyn 2025.

### Gallu i dyfu

Gallu rhannol i dyfu – Mae ymgysylltiad gan Fferyllfeydd Cymunedol yn allweddol, a sicrhau cyllid ar gyfer y cynllun ailgylchu ei hun.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – Mae'n berthnasol ar draws Safleoedd Gofal Sylfaenol, Fferyllfeydd Cymunedol ac Ysbytai Acíwt.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Yn cyflawni'n rhannol – nid yw'n lleihau effeithiau ariannol.

## 23. Astudiaeth achos: Datblygu Rhwydwaith Cerbydau Trydan – Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

### Y broblem neu'r dasg y mae eich prosiect yn ceisio ei datrys neu ei chyflawni:

Ymarferoldeb gosod seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan ar raddfa fawr ledled Cymru ar gyfer fflyd fawr o gerbydau brys.

### Yr amcan a'r canlyniad targed ar gyfer eich prosiect:

Darganfod ymarferoldeb gosod seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan ar raddfa fawr ledled Cymru ar gyfer fflyd fawr o gerbydau brys. Y targed oedd casglu digon o wybodaeth i gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru i gyflawni'r nod.

### Pa mor llwyddiannus oedd eich prosiect o ran cyflawni ei amcanion a'i dargedau:

Heb ei benderfynu eto.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn arbennig o lwyddiannus:

Dealltwriaeth drylwyr o ystâd Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

### Agwedd ar eich prosiect a oedd yn fwyaf heriol:

Contractwyr allanol a chyrff cenedlaethol, a Gweithredwyr Rhwydwaith Uniongyrchol yn benodol.

### Y ffactor pwysicaf a ddylanwadodd ar lwyddiant eich prosiect:

Gweithio ar y cyd. Nod gyfunol.

## Gwerthusiad prosiect – Datblygu Rhwydwaith Cerbydau Trydan – Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

| Gwerthusiad prosiect |
| --- |
| Gostyngiad carbon uniongyrchol |
| Gostyngiad carbon anuniongyrchol |
| Rhyddhad arian parod |
| Rhyddhad capasiti |
| Osgoi costau |
| Aliniad strategol |
| Gallu i dyfu |
| Potensial ymgysylltu |
| Gofal iechyd cynaliadwy |

### Gostyngiad carbon uniongyrchol

Ni chyfrifwyd effaith carbon – gwaith ymarferoldeb oedd hwn i nodi gofynion yr ystâd ar gyfer gosod Rhwydwaith Gwefru Cerbydau Trydan ar raddfa fawr ar gyfer y Fflyd Weithredu rheng flaen.

### Gostyngiad carbon anuniongyrchol

Ni chyfrifwyd effaith carbon – yn ddibynnol ar gaffael Cerbydau/Ambiwlansys Trydan.

### Rhyddhad arian parod

Amherthnasol – nid rhyddhau arian parod ar unwaith oedd diben y prosiect.

### Rhyddhad capasiti

Amherthnasol – gwaith ymarferoldeb oedd y prosiect.

### Osgoi costau

Amherthnasol – gwaith ymarferoldeb oedd y prosiect.

### Aliniad strategol

Aliniad agos – yn cyd-fynd yn agos â menter 22 cynllun cyflenwi strategol datgarboneiddio’r GIG.

### Gallu i dyfu

Amherthnasol – mae capasiti trydanol ac ymarferoldeb seilwaith cerbydau trydan yn benodol iawn i bob sefydliad a’i ofynion ei hun.

### Potensial ymgysylltu

Potensial uchel – llawer o ddiddordeb eisoes gan bob rhanddeiliad o ran Fflyd Cerbydau Trydan rheng flaen a Rhwydwaith Gwefru Cerbydau Trydan cysylltiedig.

### Gofal iechyd cynaliadwy

Amherthnasol – trafnidiaeth cleifion a throsglwyddiad i’r ysbyty. Yn gyffredinol, mae newid o fflyd tanwydd ffosil yn lleihau effaith amgylcheddol Ymddiriedolaeth

Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o ran allyriadau i'r aer,
ac ar iechyd y cyhoedd yn sgil hynny.

# Atodiad C: Enghraifft wedi'i chwblhau

## Ynglŷn â'ch prosiect

Mae'r testun mewn llythrennau italig yn cyflwyno enghraifft wedi'i chwblhau o'r broses pecyn cymorth gwerthuso i roi gwell dealltwriaeth i ddefnyddwyr o sut y gellir cwblhau'r holiadur.

Menter lleihau allyriadau trafnidiaeth ffuglennol fydd ein henghraifft wedi'i chwblhau. Bydd y "Rhaglen Trafnidiaeth Allyriadau Isel" hon yn mabwysiadu dull deuol o leihau allyriadau: 1. Buddsoddiad mewn seilwaith gwefru cerbydau trydan ar y cyd ag ychwanegu cerbydau trydan at y fflyd a 2. Menter newid ymddygiad a fydd yn annog y defnydd o ddewisiadau yn hytrach nag injan petrol pan fo'n bosibl.

**Enw'r prosiect a'r sefydliad**...Rhaglen Trafnidiaeth Allyriadau Isel, Enghraifft Ysbyty ..................................

### Pa feysydd blaenoriaeth mae eich prosiect yn eu targedu?

Mae'r prosiect hwn yn targedu allyriadau trafnidiaeth ac yn gweithio i leihau ôl troed carbon y fflyd, ac felly rhoddwyd ticiau yn y blychau canlynol:

- ☐ Adeiladau (e.e. trydan, tanwydd gwresogi, dŵr)
- ☒ Fflyd ac asedau eraill
- ☒ Teithio busnes, cymudo, gweithio gartref
- ☐ Defnydd tir
- ☐ Gwastraff
- ☐ Cadwyn gyflenwi

☐ Ynni adnewyddadwy

☐ Arall (nodwch) ..........................................................

### Pa rai o'r categorïau canlynol sy'n disgrifio eich prosiect orau?

Mae'r rhaglen hon yn gweithio i gynorthwyo newid ymddygiad mewnol trwy annog dewisiadau trafnidiaeth allyriadau isel ymhlith staff. Mae hefyd yn ysgogi gweithrediad datgarboneiddio ar lefel sefydliad trwy fuddsoddi mewn seilwaith cerbydau trydan. Nid yw'n gweithio i gefnogi mentrau llawr gwlad na gweithgareddau arloesi, ac nid yw chwaith yn cynnwys gweithgarwch addasu neu gynllunio cydnerthedd. Dewisir y datganiadau canlynol felly:

☒ Cyfathrebu, ymgysylltu, neu newid ymddygiad

☒ Datgarboneiddio neu weithgarwch lliniaru, gan gynnwys cefnogi gweithrediad Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio ar lefel sefydliad

☐ Addasu neu weithgarwch cynllunio cydnerthedd, gan gynnwys cefnogi gweithrediad Cynlluniau Gweithredu Addasu ar lefel sefydliad

☐ Gweithgarwch arloesi, gan gynnwys cefnogi mentrau ar lawr gwlad (er enghraifft gweithgareddau a arweinir gan 'Grwpiau Gwyrdd' o fewn sefydliadau)

☐ Arall (nodwch) ..................................................................................................

### Ar ba ôl troed carbon mae'r prosiect hwn yn effeithio?

Mae ein prosiect yn cael ei weithredu mewn ysbyty GIG Cymru yn y gorllewin, a reolir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda, ac felly mae'r prosiect hwn yn effeithio ar ôl troed carbon GIG Cymru gan fod y sefydliad hwn yn cyfrannu at ôl troed GIG Cymru.

☒ GIG Cymru (~1,000,000 tCO2e y flwyddyn)

☐ Gofal cymdeithasol yng Nghymru (~460,000tCO2e y flwyddyn)

☐ Gofal sylfaenol (nid yw'n cael ei amcangyfrif yn ôl troed carbon GIG Cymru na Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd) Dylech gynnwys esboniad yn y blwch isod o sut mae eich prosiect yn berthnasol i ofal sylfaenol a sut y mae'r tu allan i gwmpas ôl troed GIG Cymru a Gofal cymdeithasol yng Nghymru.

### Ar ba gam mae eich prosiect?

Mae'r prosiect hwn wedi mynd heibio'r cam cysyniad; mae cynlluniau gweithredu wedi'u cwblhau ac aseswyd a deallwyd ymarferoldeb y fenter. Yn flaenorol, nid oedd gan y prosiect y cyllid angenrheidiol i ddechrau gweithredu ac felly nid oedd yn bodoli tan ein cais llwyddiannus. Dewisir y canlynol felly:

☐ Cam cysyniad – asesodd eich prosiect ymarferoldeb ar gyfer eich sefydliad

☒ Cam cynnar – nid oedd eich prosiect wedi bodoli yn eich sefydliad yn flaenorol

☐ Cam datblygedig – roedd y gweithgarwch wedi bodoli'n flaenorol, ac fe wnaeth eich prosiect gynyddu graddfa, cyflymder neu effaith y gweithgarwch

## Mesur llwyddiant

### Lleihau carbon

Yn unol â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn gynharach, bydd y prosiect hwn yn cyfrifo gostyngiadau carbon yn y tabiau canlynol:

- Adeiladau, fflyd ac asedau eraill
- Teithio busnes, cymudo, gartref

Yn gyntaf, caiff y tabiau eu llenwi, gan ddilyn y cyfarwyddiadau yn y ddogfen, gyda gwybodaeth o'r cyfnod cyn dechrau'r prosiect:

*Fleet and equipment - fuel* — No errors in this table

| Type | Fuel | Category 1 | Methodology | RSD | Data | Units | Converted data | Standard units | Total EF ($kgCO_2e$/u… | Total emissions ($kgCO_2e$) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Van | Petrol | 100% mineral petrol | Tier 2 | 8% | 12,000 | litres | 116,220 | kWh | 0.3038 | 35,307.64 |
| Pool car | Petrol | 100% mineral petrol | Tier 2 | 8% | 6,000 | litres | 58,110 | kWh | 0.3038 | 17,653.82 |
| HGV | Diesel | 100% mineral diesel | Tier 2 | 8% | 2,500 | litres | 26,695 | kWh | 0.3121 | 8,331.24 |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |

*Business travel*

No errors in this table

| Emission source | Category 1 | Category 2 | Methodology used | RSD | Data | Units | Converted data | Standard units | Total EF (kgCO2e/uni | Total emissions |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Private car | Average | Diesel | Tier 2 | 13% | 35,000 | Vehicle km | 35,000 | Vehicle km | 0.21186414 | 7,415.24 |
| Van | Average | Diesel | Tier 2 | 8% | 10,000 | Vehicle km | 10,000 | Vehicle km | 0.29052 | 2,905.20 |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |

Ar ôl cwblhau cofnodion ar gyfer pob ffynhonnell allyriadau, gallwn gyfrifo mai'r canlynol oedd cyfanswm yr allyriadau cyn i'r prosiect ddechrau: 71,613.14 kg$CO_2$e.

Nawr rydym yn gwneud yr un peth eto gyda'r ffynonellau allyriadau ar ôl y prosiect:

*Fleet and equipment - fuel*

No errors in this table

| Type | Fuel | Category 1 | Methodology | RSD | Data | Units | Converted data | Standard units | Total EF (kg$CO_2$e/u | Total emissions (kg$CO_2$e) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Van | Grid electricity | Consumption based | Tier 2 | 5% | 1,000 | kWh | 1,000 | kWh | 0.3766 | 261.55 |
| Van | Petrol | 100% mineral petrol | Tier 2 | 8% | 11,000 | litres | 106,535 | kWh | 0.3038 | 32,365.33 |
| Pool car | Grid electricity | Consumption based | Tier 2 | 5% | 500 | kWh | 500 | kWh | 0.3766 | 130.78 |
| Pool car | Diesel | 100% mineral diesel | Tier 2 | 8% | 5,500 | litres | 58,729 | kWh | 0.3121 | 18,328.73 |
| HGV | Diesel | 100% mineral diesel | Tier 2 | 8% | 2,500 | litres | 26,695 | kWh | 0.3121 | 8,331.24 |

*Business travel*

No errors in this table

| Emission source | Category 1 | Category 2 | Methodology used | RSD | Data | Units | Converted data | Standard units | Total EF (kgCO2e/uni | Total emissions |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Private car | Average | Diesel | Tier 2 | 13% | 24,500 | Vehicle km | 24,500 | Vehicle km | 0.21186414 | 5,190.67 |
| Van | Average | Diesel | Tier 2 | 8% | 10,000 | Vehicle km | 10,000 | Vehicle km | 0.29052 | 2,905.20 |
| Public Transport | Bus | Average local bus | Tier 2 | 15% | 10,000 | Passenger km | 10,000 | Passenger km | 0.12144 | 1,214.40 |
| Private car | Average | Battery Electric Vehicle | Tier 2 | 13% | 500 | Vehicle km | 500 | Vehicle km | 0.06566 | 32.83 |
| | | | | | | | | | | |

Mae effaith ein prosiect ar seilwaith cerbydau trydan, newid ymddygiad, ac uwchraddio'r fflyd wedi lleihau cyfanswm yr allyriadau i: 68,760.73 kg$CO_2$e. Felly, bu gostyngiad o 2,852.41 kg$CO_2$e.

I gymharu hyn â llinell sylfaen GIG Cymru, byddwn bellach yn troi'r gostyngiad hwn mewn kg$CO_2$e i t$CO_2$e:

2,852.41/1000 = **2.85 t$CO_2$e**

O'i fesur yn erbyn llinell sylfaen GIG Cymru o 1,000,000 t$CO_2$e y flwyddyn, mae'r prosiect wedi arwain at ostyngiad o **0.000285%** i allyriadau carbon fflyd a theithio. Mae hyn yn cyfateb i effaith ddibwys:

### Beth oedd effaith carbon uniongyrchol eich prosiect dros flwyddyn?

Os oedd eich prosiect yn targedu lleihau carbon, nodwch i ba raddau y cyflawnwyd hyn.

☐ Effaith uchel (lleihad ôl troed o 0.5 - 3.0%)

☐ Effaith ganolig (lleihad ôl troed o hyd at 0.5%)

☒ Effaith isel / dibwys

☐ Ni chyfrifwyd effaith carbon (nodwch reswm)

### Beth yw effaith carbon posibl ehangach eich prosiect dros flwyddyn (e.e. os caiff y prosiect hwn ei ailadrodd / ei dyfu yn y dyfodol – nodwch y tybiaethau allweddol)?

Fe wnaeth y prosiect hwn ddisodli dau gerbyd o'r fflyd gyda cherbydau trydan. Pe bai'r prosiect hwn yn cael ei dyfu i ddisodli'r fflyd gyfan, yn ogystal ag i ehangu'r prosiect hwn i ddisodli cerbydau diesel ar draws GIG Cymru, gellid cynyddu'r effaith yn fawr. Pe bai dau gant o gerbydau diesel pellach yn cael eu disodli gyda cherbydau trydan, gallai hyn arwain at ostyngiad carbon o 285 $tCO_2e$, gostyngiad canrannol o 0.0285% yn erbyn y llinell sylfaen. Mae hyn yn parhau i gyfateb i effaith ddibwys.

Dyfarnwch i ba raddau y mae'r prosiect yn galluogi'r potensial ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn y maes targed dymunol.

☐ Effaith uchel (lleihad ôl troed o 0.5 - 3.0%)

☐ Effaith ganolig (lleihad ôl troed o hyd at 0.5%)

☒ Effaith isel / dibwys

☐ Ni chyfrifwyd effaith carbon (nodwch reswm)

**Cyfiawnhad**

*Mae ein hamcangyfrif ar gyfer tyfu'r prosiect hwn yn tybio y byddai newidiadau i gyfansoddiad y fflyd yn arwain at yr un effaith ar draws gwahanol sefydliadau. O gofio bod y prosiect hwn wedi disodli dau gerbyd o'r fflyd gyda cherbydau trydan, gallai prosiect mwy wedi'i ehangu i ddisodli dau gant o gerbydau diesel gyda cherbydau trydan arwain at ostyngiad carbon o 285* $tCO_2e$*, gostyngiad canrannol o 0.0285% yn erbyn y llinell sylfaen. Mae hyn yn parhau i gyfateb i effaith ddibwys.*

## Gwerth am arian

### I ba raddau wnaeth eich prosiect ryddhau arian parod?

Mae prosiect yn rhyddhau arian parod pan fydd yn lleihau costau cylchol. Mae'r prosiect hwn yn lleihau'r swm sy'n cael ei wario ar danwydd trwy ei gyflwyniad o gerbydau trydan i'r fflyd. Fodd bynnag, er gwaethaf yr arbedion hyn, mae cyfanswm costau disodli'r fflyd a gosod seilwaith cerbydau trydan yn uwch na'r costau sy'n cael eu rhyddhau. Dros yr hirdymor, bydd ein harbedion ar betrol yn fwy na chost y prosiect, er gwaethaf y ffaith nad yw'r arbedion hyn wedi eu gwireddu'n llawn eto. Felly, mae'r prosiect wedi arwain at ryddhad arian parod cyfyngedig.

☐ Rhyddhad uchel – roedd yr arian parod a ryddhawyd yn fwy na chost eich prosiect (swm a ryddhawyd) .................

☒ Rhyddhad cyfyngedig – roedd yr arian parod a ryddhawyd yr un faint neu'n llai na chost eich prosiect (swm a ryddhawyd) Mae hyn oherwydd y bydd y prosiect o bosibl yn arwain at arbedion arian yn y tymor hwy......................................

☐ Dim rhyddhad – ni ryddhawyd unrhyw arian parod gan eich prosiect

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) .................................................................................

### I ba raddau wnaeth eich prosiect ryddhau capasiti?

Mae rhyddhau capasiti yn golygu rhyddhau neu gynyddu effeithlonrwydd adnoddau, gwella prosesau mewnol a chynyddu llif cleifion. Mae'r prosiect hwn yn rhyddhau capasiti cyfyngedig trwy ddisodli rhai o geir y fflyd gyda faniau, gan gynyddu capasiti trafnidiaeth. Mae seilwaith gwefru trydanol hefyd yn hwyluso ail-wefru ar y safle, gan ryddhau amser staff a fyddai wedi ei dreulio yn ail-lenwi cerbydau yn flaenorol.

☐ Rhyddhad uchel – roedd y capasiti a ryddhawyd yn fwy na'r capasiti a fuddsoddwyd yn eich prosiect

☒ Rhyddhad cyfyngedig – roedd y capasiti a ryddhawyd yr un faint neu'n llai na'r capasiti a fuddsoddwyd yn eich prosiect

☐ Dim rhyddhad – ni ryddhawyd unrhyw gapasiti gan eich prosiect

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) ................................................................................

### I ba raddau wnaeth eich prosiect osgoi costau?

Mae prosiectau yn osgoi costau trwy osgoi gwariant untro a gynlluniwyd. Yn achos y prosiect hwn, roedd llawer o gerbydau yn ein fflyd eisoes wedi'u clustnodi ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw. Trwy ddisodli'r cerbydau hynny, rydym wedi osgoi'r

costau yn gysylltiedig â'u cynnal a'u cadw. Roedd y gost ddisodli yn uwch na'r costau cynnal a chadw, felly roedd y prosiect hwn yn caniatáu osgoi costau cyfyngedig.

☐ Osgoi uchel – roedd y costau a gafodd eu hosgoi yn fwy na chost eich prosiect

☒ Osgoi cyfyngedig – roedd y costau a gafodd eu hosgoi yr un faint neu'n llai na chost eich prosiect

☐ Dim osgoi – ni chafodd unrhyw gostau eu hosgoi gan eich prosiect

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) ..........................................................................................

## Effaith sefydliadol

### Pa mor agos mae eich prosiect yn alinio â strategaeth / polisi perthnasol?

Mae'r prosiect hwn yn alinio'n agos â sawl menter yng nghynllun cyflenwi strategol datgarboneiddio GIG Cymru.

☒ Aliniad agos (nodwch y maes strategol / polisi penodol y mae eich prosiect yn alinio'n agos ag ef) Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â mentrau Trafnidiaeth rhifau 17, 18, 19 ac 21 'Cynllun cyflenwi strategol datgarboneiddio GIG Cymru'.

☐ Aliniad rhannol (nodwch y maes strategol / polisi penodol y mae eich prosiect yn alinio'n rhannol ag ef) ..........................................................................................................................................

☐ Aliniad cyfyngedig (rhowch reswm) ..........................................................................................

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) ................................................................................................

### Pa mor barod i dyfu yw eich prosiect, naill ai ar draws eich sefydliad eich hun neu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach?

Mae cyflwyno trafnidiaeth carbon isel yn weithgarwch y gellir ei dyfu, ond byddai angen buddsoddiad sylweddol i ehangu'r prosiect hwn. Mae hwn yn rhwystr amlwg. Fodd bynnag, nid yw'r rhwystr hwn yn hynod arbenigol a byddai'n caniatáu un ateb sy'n addas i bawb yn gyffredinol. Mae hwn yn ffactor lliniarol ar gyfer cymhlethdod gallu'r prosiect i dyfu.

☐ Gallu mawr i dyfu, â chyn lleied o rwystrau â phosibl (disgrifiwch) ...........................................................................

☒ Gallu rhannol i dyfu, rhai rhwystrau hysbys (disgrifiwch) ...Byddai angen buddsoddiad sylweddol i ehangu'r fflyd a buddsoddiad mewn seilwaith o fewn ein sefydliad neu ar draws y sector ehangach.

☐ Gallu cyfyngedig i dyfu, rhwystrau sylweddol (rhowch reswm) ............................................................

☐ Amherthnasol (rhowch reswm) ......................................................................................

**Beth yw'r potensial i'r prosiect hwn gynyddu ymgysylltiad â'r agenda datgarboneiddio / newid hinsawdd ar draws eich sefydliad neu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach?**

Elfen newid ymddygiad y prosiect hwn sy'n cynhyrchu'r mwyaf o ymgysylltiad â datgarboneiddio. Mae'n mynd y tu hwnt i dîm uniongyrchol y prosiect, gan weithio i ymgysylltu â holl staff y sefydliad. Fodd bynnag, nid yw'n ymgysylltu â chynulleidfa eang – mae ein menter newid ymddygiad wedi'i thargedu at staff y sefydliad yn unig. Felly, rydym yn dewis:

☐ Potensial uchel, mae eich prosiect yn ymgysylltu â chynulleidfa eang y tu hwnt i'ch tîm prosiect uniongyrchol

☒ Rhywfaint o botensial, mae eich prosiect yn ymgysylltu â chynulleidfa y tu hwnt i'ch tîm prosiect uniongyrchol

☐ Potensial cyfyngedig, mae eich prosiect yn annhebygol o gynyddu ymgysylltiad y tu hwnt i'ch tîm prosiect uniongyrchol

☐Amherthnasol

**I ba raddau mae eich prosiect yn cyflawni o ran egwyddorion arfer clinigol cynaliadwy?**

Mae'r prosiect yn cyflawni'n rhannol o ran egwyddorion arfer clinigol cynaliadwy gan ei fod yn ceisio lleihau allyriadau cerbydau wrth wasanaethu cleifion a staff, ond mae'n arwain at oblygiadau ariannol yn y byrdymor i'r tymor canolig. Felly, rydym yn dewis:

☐Yn cyflawni'n gryf, gall eich prosiect ddangos gwerth cynaliadwy yn ôl fframwaith SusQI, lle caiff canlyniadau iechyd eu darparu trwy effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, ac ariannol cyn lleied â phosibl

☒ Yn cyflawni'n rhannol, mae eich prosiect yn dangos canlyniad cadarnhaol i gleifion ond efallai nad yw'n sicrhau bod pob effaith cyn lleied â phosibl; fel arall, gallai ddangos effeithiau sydd cyn lleied â phosibl ond arwain at fân welliannau i ganlyniadau cleifion

☐ Cyflawniad cyfyngedig, mae eich prosiect yn cyflawni newid cadarnhaol cyfyngedig i gleifion, ac nid yw'n lleihau effeithiau chwaith

☐ Amherthnasol

## Arddangosiad o sut gwnaeth canlyniadau'r 'Rhaglen Trafnidiaeth Allyriadau Isel' gyfrannu at y gwerthusiad

| | Rhif | B. Mesur llwyddiant | Gwyrdd | Oren | Coch | Llwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Effaith carbon** | 1 | **Gostyngiad carbon uniongyrchol** | Effaith uchel (0.5-3%) | Effaith ganolig (hyd at 0.5%) | Effaith isel / dibwys | Amh. |
| | 2 | **Effaith carbon bosibl ehangach** | Effaith uchel (0.5-3%) | Effaith ganolig (hyd at 0.5%) | Effaith isel / dibwys | Amh. |
| **Gwerth am arian** | 3 | **Rhyddhad arian parod** | Rhyddhad uchel | Rhyddhad cyfyngedig | Dim rhyddhad | Amh. |
| | 4 | **Rhyddhad capasiti** | Rhyddhad uchel | Rhyddhad cyfyngedig | Dim rhyddhad | Amh. |
| | 5 | **Osgoi costau** | Osgoi uchel | Osgoi cyfyngedig | Dim osgoi | Amh. |
| **Effaith sefydliadol** | 6 | **Aliniad strategol** | Aliniad agos | Aliniad rhannol | Aliniad cyfyngedig | Amh. |
| | 7 | **Gallu i dyfu** | Gallu mawr i dyfu | Gallu rhannol i dyfu | Gallu cyfyngedig i dyfu | Amh. |
| | 8 | **Potensial ymgysylltu** | Potensial uchel | Rhywfaint o botensial | Potensial cyfyngedig | Amh. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 9 | **Gofal iechyd cynaliadwy** | Yn cyflawni’n gryf | Yn cyflawni’n rhannol | | |

Ariennir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth Cymru gyda’r nod o ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy sy’n cyfrannu at dargedau datgarboneiddio’r sector cyhoeddus a thargedau ynni cenedlaethol. Darperir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Phartneriaethau Lleol (y “**Partneriaid Darparu**”). Lluniwyd yr adroddiad hwn (yr “**Adroddiad**”) gan y Partneriaid Darparu, ac er bod y safbwyntiau a fynegir ynddo yn cael eu rhoi yn ddidwyll yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael ar ddyddiad yr Adroddiad hwn:- (i) nid yw’r safbwyntiau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru, nad yw’n derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ddatganiad neu farn a fynegir yn yr Adroddiad; (ii) bwriedir i’r Adroddiad roi canllawiau cyffredinol yn unig, yn hytrach na chyngor ariannol, cyfreithiol neu dechnegol at ddibenion unrhyw brosiect neu fater arall penodol, ac ni ddylai neb sy’n derbyn yr Adroddiad neilltuo unrhyw ddibyniaeth arno fel dewis yn hytrach na chael gafael ar eu cyngor eu hunain gan gynghorydd trydydd parti priodol; a (iii) dylai unrhyw un sy’n derbyn yr Adroddiad hwn gael gafael ar ei gyngor ariannol, cyfreithiol, technegol a/neu berthnasol felly, o’r safbwynt eu bod angen cyfarwyddyd penodol ar ba gamau (os o gwbl) i’w cymryd, neu beidio â’u cymryd, yng nghyswllt unrhyw brosiect, menter, cynnig, cyfranogiad ag unrhyw

bartneriaeth neu fater arall y gallai gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad fod yn berthnasol iddo; a (iv) nid yw'r Partneriaid Darparu yn derbyn unrhyw atebolrwydd yng nghyswllt yr Adroddiad, nac am unrhyw ddatganiad yn yr Adroddiad a/neu unrhyw wall neu hepgoriad yn ymwneud a'r Adroddiad.